

## **Arolygiad Dilynol (Dirybudd)**

Ysbyty Athrofaol Cymru/Bwrdd  
Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro/  
Uned Achosion Brys ac Uned  
Asesu

Dyddiad arolygu: 10 ac 11 Mawrth  
2020

Dyddiad cyhoeddi: 04 Awst 2020

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**  
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**  
**Llywodraeth Cymru**  
**Parc Busnes Rhydycar**  
**Merthyr Tudful**  
**CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163**  
**E-bost: [hiw@gov.wales](mailto:hiw@gov.wales)**  
**Ffacs: 0300 062 8387**  
**Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)**

## Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad .....	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	10
	Ansawdd profiad y claf .....	12
	Darparu gofal diogel ac effeithiol .....	22
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	43
4.	Beth nesaf? .....	51
5.	Sut rydym yn cynnal arolygiadau dilynol .....	52
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad	53
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	54
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	58
	Dyddiad: 2 Gorffennaf 2020 .....	84

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

## Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

## Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dilynol dirybudd o Uned Achosion Brys ac Uned Asesu Ysbyty Athrofaol Cymru sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 10 ac 11 Mawrth 2020.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr AGIC, dau adolygwr sy'n gymheiriaid clinigol ac un adolygwr lleyg. Cafodd yr arolygiad ei arwain gan un o reolwyr arolygu AGIC.

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau dilynol yn Adran 5.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn ystod ein harolygiad diwethaf o'r Uned Asesu a'r Uned Achosion Brys ym mis Mawrth 2019, roedd gennym bryderon uniongyrchol ynghylch ansawdd profiad y claf yn lolfa'r Uned Asesu. Roedd gennym hefyd bryderon uniongyrchol ynghylch darparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion yn yr Uned Asesu a'r Uned Achosion Brys ac, felly, ni chawsom sicrwydd fod yr holl brosesau a systemau a oedd ar waith yn ddigonol i sicrhau bod y cleifion yn cael gofal diogel ac effeithiol o safon dderbyniol yn gyson.

Yn ystod yr arolygiad dilynol hwn, roedd yn gadarnhaol gweld bod y bwrdd iechyd wedi gwneud cynnydd da dros y 12 mis diwethaf. Roedd wedi gweithredu'r gwelliannau a nodwyd yn ei gynllun gweithredu y llynedd. Fodd bynnag, roedd angen gwella rhai meysydd o hyd, a chyfeirir at y rhain yn fanylach yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn.

Gwelsom welliannau sylweddol yn lolfa'r Uned Asesu, a'r Uned Asesu yn gyffredinol, mewn perthynas â phrofiad y claf a gofal diogel ac effeithiol. Gwnaed hyn drwy welliannau nid yn unig yn yr Uned Asesu a'r Uned Achosion Brys, ond gwelsom hefyd dystiolaeth o newid i gefnogi'r Uned Asesu o fewn yr ysbyty ehangach, gyda newidiadau i fodolau gofal mewn adrannau eraill, megis cynyddu amseroedd derbyn yn yr Uned Asesu Llawfeddygol a gweithrediad yr Uned Gofal Asesu Trawma. Gwelsom hefyd dystiolaeth bod mynediad amserol at ofal wedi gwella, ynghyd â gwelliannau o ran staffio a recriwtio.

At ei gilydd, gwelsom dystiolaeth bod y bwrdd iechyd yn ymdrechu i ddarparu profiad da i'r claf a gofal diogel ac effeithiol. Fodd bynnag, gwelsom beth tystiolaeth nad oedd y bwrdd iechyd yn cydymffurfio'n llawn â'r holl Safonau Iechyd a Gofal ym mhob maes.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw fod y staff yn garedig ac yn broffesiynol
- Roedd yr Uwch-reolwyr i'w gweld, roeddent yn hawdd mynd atynt ac yn rhagweithiol
- Gwelsom gyfathrebu effeithiol a phroffesiynoldeb rhwng aelodau o'r staff
- Roedd swyddi nyrsio wedi'u llenwi yn yr Uned Achosion Brys, sydd wedi gwella'r gofal a roddir i gleifion a diogelwch
- Cawsom gopiâu o weithdrefnau a phrotocolau cynhwysfawr yn brydlon ar gyfer yr Uned Asesu a'r Uned Achosion Brys
- Roedd cyfarpar dadebru yn cael ei archwilio'n rheolaidd ac yn dilyn ataliad y galon, gwelsom fod y troli dadebru yn cael ei ail-lenwi a'i archwilio a'i fod yn barod i'w ddefnyddio eto.
- Gwelsom fod gwybodaeth am sepsis ar gael yn hawdd, ac roedd bwrdd sepsis penodedig wedi'i arddangos yn yr uned
- Nodwyd gennym fod oergelloedd ar gyfer cyffuriau rheoledig a bwyd yn cael eu gwirio'n rheolaidd a'u bod wedi'u cloi
- Archwiliadau gofal iechyd a oedd yn cynnig cyfle i wneud sylwadau cyffredinol a llunio barnau cyffredinol er mwyn annog yr adran i weithredu
- Gwelsom feddygon ymgynghorol a rheolwr y ward yn archwilio cleifion fel rhan o ymweliadau rheolaidd â'r ward er mwyn pennu lefelau aciwtedd
- Aethom i gyfarfodydd llif cleifion yr ysbyty a gwelsom dystiolaeth o drefniadau effeithiol o ran llif cleifion a dyrannu gwelyau, ac o ddefnyddio'r cyfleuster 24 awr yn yr uned asesu llawfeddygol
- Gwelsom dystiolaeth fod hyd arhosiad cleifion yn cael ei fonitro, a bod materion yn cael eu huwchgyfeirio lle y bo'n berthnasol
- Gwelsom wirfoddolwyr y Groes Goch yn cynnig cymorth, gan gyfathrebu â'r cleifion a chynorthwyo â gofynion maethol
- Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y rheolwyr.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylid sicrhau bod gan bob claf sy'n cael meddyginiaeth fand adnabod
- Mae angen gwella décor, gosodiadau a ffitiadau, gweithdrefnau atal tân a chyfleusterau diogelwch yn uned bediatrig yr Uned Achosion Brys
- Sicrhau lefelau staffio digonol o ran nyrsys ar sifftiau nos yn yr Uned Achosion Brys bediatrig a sicrhau bod digon o feddygon ymgynghorol ar gael yn yr uned honno
- Glendid a diogelwch y twnelau a ddefnyddir i gludo cleifion i wardiau ac i'r ysbyty plant
- Lleoliad y cadeiriau gogwyddol yn y lolfa asesu er mwyn sicrhau preifatrwydd a chysur y cleifion
- Darparu dŵr yfed yn ardal aros y lolfa frys
- Dylid sicrhau bod dogfennaeth nyrsio yn cael ei chwblhau'n ddigonol ac yn briodol yn yr uned achosion brys
- Diogelwch meddyginiaeth a chyffuriau a gaiff eu tynnu allan o gypyrddau ac oergelloedd a'u gadael ar fyrddau gwaith
- Gwared cynnwys blychau offer miniog yn rheolaidd
- Cydymffurfiaeth o ran hyfforddiant i staff a chwblhau adolygiadau datblygiad personol.

Cynhaliodd AGIC ei harolygiad diwethaf o Uned Achosion Brys Ysbyty Athrofaol Cymru ar 25, 26 a 27 Mawrth 2019.

Roedd y meysydd allweddol i'w gwella a nodwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Dylid hysbysebu swyddi staff gwag a'u llenwi
- Preifatrwydd, urddas a chysur y cleifion
- Gofynion maeth a hydradu sylfaenol y cleifion
- Model gofal ar gyfer rheoli cleifion yn lolfa'r Uned Asesu, a darparu gofal i gleifion mewn perthynas â briwiau pwyso a chwympiadau
- Deall pam bod staff o'r farn bod risg i ddiogelwch cleifion yn lolfa'r Uned Asesu
- Gwelliannau i atal achosion o dorri'r rheol 12 awr mewn perthynas â gofal cleifion gan sicrhau y caiff cleifion eu trin, eu trosglwyddo i ward neu eu rhyddhau o'r ysbyty o fewn 12 awr

- Sicrhau bod cyfarpar dadebru yn ddiogel a'i fod ar gael i'w ddefnyddio ym mhob rhan o'r adran
- Storio meddyginiaeth a gedwir mewn oergelloedd yn ddiogel.

Diben yr arolygiad hwn oedd ystyried y camau gweithredu a gymerwyd gan y bwrdd iechyd i ymdrin â'r argymhellion a wnaed yn ystod arolygiad a gwblhawyd ar 25, 26 a 27 Mawrth 2019.

## 3. Yr hyn a nodwyd gennym

### Cefndir y gwasanaeth

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn un o sefydliadau GIG mwyaf y DU. Mae'n fwrdd iechyd addysgu sydd â chysylltiadau agos â phrifysgolion, a gyda'i gilydd, maent yn hyfforddi gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ac yn cydweithio ar waith ymchwil.

Mae'r bwrdd iechyd yn cyflogi tua 14,500 o staff ac yn darparu gwasanaethau iechyd a lles i boblogaeth o tua 472,400 o bobl sy'n byw yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. Mae hefyd yn gwasanaethu poblogaeth ehangach ledled de a chanolbarth Cymru ar gyfer amrywiaeth o arbenigeddau, ac yn darparu gwasanaethau aciwt, gofal sylfaenol, cymunedol ac iechyd meddwl ac anabledau dysgu i oedolion a phlant. Darperir y gwasanaethau hyn drwy ysbytai aciwt, cyffredinol a chymunedol, canolfannau iechyd, meddygon teulu, deintyddion, fferyllfeydd ac optometryddion.

Mae 1,080 o welyau yn Ysbyty Athrofaol Cymru ac mae wedi'i lleoli yng Nghaerdydd. Hwn yw'r trydydd ysbyty athrofaol mwyaf yn y DU a'r un mwyaf yng Nghymru. Mae safle'r ysbyty hefyd yn gartref i ysbyty deintyddol ac Ysbyty Plant Arch Noa Cymru.

Mae'r Uned Achosion Brys wedi'i lleoli ar lawr gwaelod isaf Ysbyty Athrofaol Cymru, mae'n ymdrin â damweiniau ac achosion brys ac mae ar agor 24 awr y dydd. Mae nifer o ardaloedd asesu a thrin yn yr Uned Achosion Brys, gan gynnwys ardal dadebru, ciwbiclau ar gyfer anafiadau mawr a mân anafiadau ac ystafell brysbennu.

Mae'r Uned Asesu, sydd ar agor 24 awr, wedi'i lleoli ar lawr gwaelod isaf yr ysbyty, ac mae wedi'i chysylltu'n uniongyrchol â'r Uned Achosion Brys. Mae gan yr Uned Asesu le i 27 o droliâu, 15 yn adain y gogledd a 12 yn adain y de. Mae ardal lolfa yn yr Uned Asesu â chadeiriau cefn caled a chadeiriau gogwyddol. Mae cleifion yn aros yn yr ardal hon er mwyn cael eu hasesu a'u dyrannu i wely/troli a gellir naill ai eu derbyn i'r ysbyty fel claf mewnol, eu trin neu eu rhyddhau er mwyn iddynt fynd adref.

Ceir Uned Triniaeth Ddydd Frys Feddygol (MEACU). Mae'r adran hon yn anelu at reoli cleifion sy'n dod i'r Uned Achosion Brys ag anafiadau difrifol yn effeithlon ac effeithiol. Mae'r Uned Triniaeth Ddydd Frys Feddygol ar agor ac yn cael ei staffio rhwng 9:00am ac 11:00pm. Caiff cleifion eu hatgyfeirio iddi gan eu meddyg teulu er mwyn cael asesiad meddygol. Mae ardal eistedd i gleifion a phum cilfan asesu yn yr Uned Triniaeth Ddydd Frys Feddygol.

Mae Uned Asesu Llawfeddygol yn yr ysbyty. Nid yw'r uned hon yn rhan o'r Uned Achosion Brys ac mae bwrdd clinigol gwahanol yn gyfrifol amdani. Fodd bynnag, caiff cleifion llawfeddygol eu derbyn o'r Uned Achosion Brys a'r Uned Asesu a'u hatgyfeirio gan feddygon teulu. Mae'r Uned Asesu Llawfeddygol ar agor saith diwrnod yr wythnos a 24 awr y dydd i dderbyn cleifion newydd o fore dydd Llun tan nos Wener, ac mae ar agor 24 awr y dydd ar ddydd Sadwrn a dydd Sul, ond nid yw'n derbyn cleifion newydd ar benwythnosau.

Mae nyrsys yn yr Uned Achosion Brys yn nodi cleifion sy'n addas i'w hanfon i'r Uned Gofal Dydd ar gyfer Trawma (TACU). Gall yr uned hon asesu cleifion, rhoi diagnosis iddynt a'u trin ar yr un diwrnod gan anelu at eu rhyddhau o'r ysbyty. Gall meddygon teulu hefyd atgyfeirio cleifion yn uniongyrchol i'r uned hon. Mae'r uned yn cau am 7.30pm. Gellir gofyn i gleifion ddychwelyd i gael triniaeth bellach drannoeth ac mewn rhai achosion, caiff cleifion eu derbyn fel cleifion mewnlol yn un o adrannau eraill yr ysbyty lle y bo'n berthnasol.

Mae'r Uned Achosion Brys Bediatrig wedi'i lleoli wrth ymyl y brif Uned Achosion Brys ac mae ar agor 24 awr y dydd. Mae'r uned yn fach ac yn cynnwys ystafell aros, ystafell brysbennu fach, ystafell staff a thri gwely. Gofelir am blant yn yr uned hon a chânt eu rhyddhau o'r ysbyty neu eu derbyn fel cleifion mewnlol a'u trosglwyddo i'r ysbyty plant sydd ar safle Ysbyty Athrofaol Cymru.

## Ansawdd profiad y claf

*Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Yn ystod ein harolygiad ym mis Mawrth 2019, nodwyd gennym fod nifer o gleifion yn eistedd mewn cadeiriau yn lolfa'r Uned Asesu am gyfnodau annerbyniol o amser. Roedd y lolfa yn gyfyng ac nid oedd llawer o breifatrwydd, os o gwbl, i'r cleifion, ac roedd llawer ohonynt yn eistedd mewn cadeiriau drwy'r nos, gan olygu eu bod yn agored i niwed ac yn aml yn methu â chysgu.

Yn ystod yr arolygiad dilynol hwn, roedd yn galonogol gweld bod y bwrdd iechyd wedi cyflwyno'r rhan fwyaf o'r gwelliannau a restrwyd yn ei gynllun gweithredu ar ôl yr arolygiad diwethaf ac wedi parhau i'w gweithredu.

Gwnaethom siarad â'r cleifion a oedd yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth roeddent wedi'u cael. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion fod y gofal a'r driniaeth a roddwyd yn ystod eu cyfnod yn yr ysbyty yn ardderchog, er i rai ohonynt ddweud mai cymedrol ydoedd. Gwelsom ryngweithio da hefyd rhwng y staff a'r cleifion, gyda'r staff yn cefnogi'r cleifion mewn modd urddasol a pharchus.

## Y meysydd lle roedd angen sicrwydd uniongyrchol yn ystod yr arolygiad diwethaf

Roedd y meysydd i'w gwella ar unwaith a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf yn cynnwys y canlynol:

- Sicrhau bod cleifion yn gyfforddus yn ardal y lolfa yn yr Uned Asesu, wrth iddynt aros i gael eu hasesu neu i gael gwely
- Y caiff preifatrwydd ac urddas eu cynnal oherwydd lleoliad ardal y lolfa. Rhaid ymateb pan fydd cleifion yn gofyn am gymorth i ddefnyddio'r toiledau

- Na chaiff cleifion eu gadael yn eistedd yn y gadair yn y lolfa am gyfnodau hir, yn enwedig dros nos, gan arwain at ddiffyg cwsg
- Y caiff prydu poeth eu cynnig i gleifion ynghyd ag ystyriaeth o'u gofynion maeth, i'r sawl y nodir bod angen iddynt gael gwely, ac i'r sawl sy'n aros i gael asesiad dros gyfnodau hir o amser
- Y caiff lefelau hydradu cleifion eu cynnal ac mae digon o ddŵr ar gael i'r sawl sy'n eistedd yn y lolfa, yn enwedig i'r sawl sydd ag anawsterau symudedd.

## **Pa gamau gweithredu y dywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd**

Ymrwymodd y gwasanaeth i gymryd y camau gweithredu canlynol yn ei gynllun gwella dyddiedig 7 Mehefin 2019:

### *Yr uned asesu*

- Cynyddu nifer y staff yn ardal Lolfa'r Uned Asesu a sicrhau bod yr angen i uwchgyfeirio gofal cleifion yn cael ei ystyried yn rheolaidd
- Gosod rheiliau llenni er mwyn gwahanu ardal eistedd lolfa'r Uned Asesu a defnyddio sgriniau symudol Sicrhau goruchwyliaeth ddigonol er mwyn galluogi'r staff i helpu'r cleifion
- Darparu cadeiriau gogwyddol i'r cleifion eu defnyddio a throlïau i'r cleifion hynny y disgwylir iddynt dreulio cyfnod hwy yn yr Uned Asesu
- Atgoffa'r staff o'u cyfrifoldeb i sicrhau cyn lleied â phosibl o sŵn ac aflonyddwch dros nos
- Cyflwyno cynllun maeth a hydradu diwygiedig yn ardal lolfa'r Uned Asesu sy'n sicrhau y gall y cleifion gael gafael ar brydau ac er mwyn sicrhau bod y staff yn hwyluso ac yn hyrwyddo lefelau hydradu da ymhlith y cleifion
- Cyflwyno Gweithdrefn Gweithredu Safonol ar gyfer lolfa'r Uned Asesu gan ffurfioli'r broses uwchgyfeirio a'r broses gwneud penderfyniadau ac yn nodi rolau a chyfrifoldebau'r staff.

## **Yr hyn a welsom yn ystod yr ymweliad dilynol**

Gwelsom fod y bwrdd iechyd wedi gwneud gwelliannau sylweddol yn yr Uned Asesu yn dilyn yr arolygiad blaenorol, a'i fod wedi cyflwyno'r rhan fwyaf o'r gwelliannau a restrwyd yn ei gynllun gweithredu ac wedi parhau i'w gweithredu.

Fodd bynnag, roedd angen gwella rhai meysydd ymhellach, a chyfeirir atynt ym mhrif gorff yr adroddiad.

#### *Yr uned asesu*

Yn ystod ein harolygiad dilynol, nodwyd y gwelliannau canlynol gennym:

- Roedd nifer y staff yn lolfa'r Uned Asesu wedi cynyddu. Cyflwynwyd Gweithdrefn Gweithredu Safonol yn amlinellu arferion gwaith, rolau a chyfrifodlebau'r staff a'r broses uwchgyfeirio
- Roedd rheiliau llenni wedi cael eu gosod er mwyn gwahanu ardal eistedd lolfa'r Uned Asesu ac roedd sgriniau symudol yn cael eu defnyddio hefyd. Gwelsom y staff yn rhoi cymorth i'r cleifion mewn perthynas â phob agwedd ar eu gofal ac wrth iddynt symud er mwyn mynd i'r toiled
- Gwelsom gadeiriau gogwyddol yn y lolfa asesu. Fodd bynnag, roedd y cadeiriau hyn wedi cael eu gosod yn agos at ei gilydd ac yn dynn yn erbyn wal. Nid oedd y cleifion yn gallu gogwyddo'n llawn, ac o ganlyniad i agosrwydd y cadeiriau at ei gilydd, nid oedd modd cynnal trafodaethau cyfrinachol
- Nodwyd gennym fod awyrgylch yr adran yn ystod y dydd yn bleserus, yn dawel a bod ymdrechion i sicrhau nad oedd llawer o sŵn
- Roedd y cynllun maeth a hydradu ar waith a gwelsom fod lluniaeth, prydu a chawl poeth ar gael i'r cleifion. Gwelsom jygiau dŵr o amgylch yr Uned Achosion Brys ond nodwyd gennym fod rhai ohonynt yn wag a bod angen rhoi dŵr ffres yn rhai o'r lleill.

### **Gwelliannau ychwanegol yr oedd eu hangen yn dilyn yr arolygiad diwethaf**

Roedd y meysydd i'w gwella a nodwyd gennym yn ystod yr arolygiad diwethaf yn cynnwys y canlynol:

#### *Yr Uned Achosion Brys a'r Uned Asesu*

- Preifatrwydd ac urddas y cleifion yn ystod y broses brysbennu
- Gofyniad am arwyddion ychwanegol a gwybodaeth gofal iechyd ddwyieithog
- Cynlluniau'r bwrdd iechyd i ymdrin â phroblemau parhaus o ran recriwtio a chadw staff

- Adolygu'r broses ar gyfer derbyn cleifion gan feddygon teulu
- Y trefniadau ar gyfer trosglwyddo cleifion rhwng criwiau ambiwlans a'r Uned Achosion Brys a'r gofyniad am Weithdrefn Gweithredu Safonol
- Angen i'r staff nodi anghenion cleifion mewn asesiadau a chynlluniau gofal
- Gofyniad i arddangos proses Gweithio i Wella'r GIG drwy bosteri a thafleuni.

## **Pa gamau gweithredu y dywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd**

Ymrwymodd y gwasanaeth i gymryd y camau gweithredu canlynol yn ei gynllun gwella dyddiedig 7 Mehefin 2019:

### *Yr Uned Achosion Brys a'r Uned Asesu*

- Cynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion drwy gau drysau ystafelloedd brysbennu a llenni o amgylch gwelyau
- Archebu arwyddion a thafleuni gofal iechyd ac anafiadau dwyieithog fel blaenoriaeth. Sicrhau y caiff gofynion ieithyddol eraill eu hystyried fesul achos unigol gan ddefnyddio Language Line a gwasanaethau cyfieithu
- Ymdrin â phroblemau parhaus o ran recriwtio a chadw staff
- Bwrw ati â'r prosiect ar y cyd rhwng Gofal Cymunedol a Chanolraddol Sylfaenol (PCIC) a Meddyginiaeth er mwyn adolygu'r broses o ffrydio cleifion a datblygu rhestr atgoffa er mwyn sicrhau bod cleifion a gaiff eu hatgyfeirio gan feddygon teulu yn cael eu hasesu'n ddigonol
- Atgoffa'r staff o'r Weithdrefn Gweithredu Safonol sy'n nodi manylion y broses o drosglwyddo cleifion rhwng criwiau ambiwlans a'r adran achosion brys
- Hysbysu'r staff fod angen iddynt nodi anghenion cleifion mewn asesiadau a chynlluniau gofal
- Arddangos poster i thafleuni Gweithio i Wella'r GIG.

## **Yr hyn a welsom yn ystod yr ymweliad dilynol**

### *Yr Uned Achosion Brys a'r Uned Asesu*

Yn ystod ein harolygiad dilynol, nodwyd y canlynol gennym:

- Gwelsom fod drws ystafell brysbennu'r Uned Achosion Brys ar agor pan oedd cleifion yn cael eu brysbennu. Fodd bynnag, cawsom wybod fod y staff yn gofyn i'r cleifion a oeddent am gau'r drws, ac a oeddent am gael hebryngwr
- Gwelsom y cleifion yn cael eu hannog i fwyta, a gwelsom gawl poeth a brechdanau yn cael eu cynnig. Gwelsom arwyddion yn hysbysu'r cleifion am amser prydau bwyd, ac roedd opsiynau eraill ar gael i brynu bwyd a diodydd o beiriannau gwerthu a chyfleusterau eraill yn yr ysbyty.
- Roedd arwyddion ym mhob rhan o'r unedau wedi cael eu gwella, ond gofynnodd sawl claf a theulu i ni am gyfarwyddiadau. Nodwyd gennym fod angen arwyddion yn MEACU er mwyn hysbysu'r cleifion y dylent eistedd yn hytrach nag aros yn y dderbynfa
- Rhoddwyd tystiolaeth i ni o daflenni gofal iechyd ac anafiadau dwyieithog
- Darparodd yr Uned Achosion Brys dystiolaeth ei bod wedi recriwtio nyrsys a chynorthwyr gofal iechyd
- Roedd meini prawf cymhwysedd wedi cael eu rhoi ar waith ar gyfer cleifion a oedd yn cael eu ffrydio i MEACU
- Gwelsom y Weithdrefn Gweithredu Safonol ar gyfer trosglwyddo cleifion rhwng criwiau ambiwlans a'r adran achosion brys, a cawsom wybod fod y staff wedi cael eu hatgoffa o'r gofynion gweithdrefnol
- Gwelsom dystiolaeth o amserlenni hyfforddiant, briffiadau diogelwch a sgrymiau staff
- Roedd posteri a thafenni Gweithio i Wella'r GIG wedi'u harddangos ynghyd â phroses bryderon y bwrdd iechyd, a gwybodaeth am y Cyngor Iechyd Cymuned (CIC).

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion a gofalwyr er mwyn cael eu barn am y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 20 o holiaduron - 17 gan gleifion, dau gan berthnasau cleifion ac un ar ran claf. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

*“Cefais fy ngweld yn sydyn iawn a chefais feddyginiaeth yn gyflym gan fy mod mewn llawer o boen”*

*“Dim cwynion, mae popeth i’w weld yn iawn a chefais sylw cyn gynted â phosibl, o gymharu ag ymweliadau blaenorol”*

## **Canfyddiadau ychwanegol**

### **Cadw'n iach**

Gwelsom ryngweithio da rhwng y staff a'r cleifion, gyda'r staff yn ymdrin ag anghenion cleifion mewn modd preifat a phroffesiynol. Soniodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn gadarnhaol am y ffordd roedd y staff yn ymgymryd â'u dyletswyddau.

### **Gofal ag urddas**

O blith y cleifion a'r perthnasau hynny a gwblhaodd holiadur, roedd pob un o'r ymatebwyr, fwy neu lai, yn cytuno bod y staff yn garedig, yn sensitif a'u bod wedi darparu'r gofal yr oedd ei angen arnynt wrth roi triniaeth. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys:

*“Mae pob aelod o staff yr ysbyty yn gwrtais iawn, yn dangos dealltwriaeth ac yn barod i'm helpu i a'm gwraig, ni allaf eu canmol ddigon”*

*“Tîm sy'n gweithio'n galed ac yn llawn gofal. Roedd y nyrsys a'r meddyg yn gwrtais iawn i mi a'r aelodau o'm teulu a oedd yma yn gwmni i mi”*

*“Mae pob aelod o'r staff wedi bod yn hyfryd ac wedi rhoi tawelwch meddwl i mi mewn sefyllfa anodd”*

Yn ystod ein harolygiad o'r Uned Achosion Brys, nodwyd gennym fod y toiledau yn lân ac mewn cyflwr boddhaol.

Gwelsom fod y llenni yn cael eu tynnu o amgylch cleifion wrth roi gofal, a gwelsom hefyd fod y llenni yn cael eu tynnu ychydig os oedd y cleifion yn gofyn am rywfaint o breifatrwydd. Nodwyd gennym fod sgriniau tafladwy o amgylch y cilfannau i gleifion yn yr uned asesu er mwyn atal a rheoli heintiau.

Dywedodd yr uwch-reolwyr wrthym fod gwirfoddolwyr y Groes Goch yn adnodd amhrisiadwy, a'u bod yn rhoi cymorth amlwg i gleifion yn ystod eu cyfnod yn yr Uned Achosion Brys.

Gwelsom fod drws ychwanegol wedi'i osod y tu mewn i brif ystafell brysbennu'r Uned Achosion Brys yn dilyn ein hargymhelliad yn ystod yr arolygiad diwethaf. Roedd hyn yn cynnig llwybr ymadael amgen allan o'r ystafell i'r staff os oedd ei angen. Yn ystod ein harolygiad, gwelsom fod drws yr ystafell brysbennu ar agor yn gyson. Dylid cadw'r drws ar gau yn ystod unrhyw sesiwn brysbennu, er mwyn cynnal urddas, preifatrwydd a chyfrinachedd. Yn ystod yr arolygiad, gallai aelodau o'r tîm arolygu a oedd yn sefyll gerllaw glywed sgysiau o'r ystafell.

Nodwyd gennym nad oedd unrhyw ardal ddynodedig yn yr uned mân anafiadau fach a oedd yn caniatáu i weithiwr iechyd proffesiynol a chlaf gael sgwsr gyfrinachol. Roeddem hefyd yn ymwybodol y gallai'r cleifion yn y gwely wrth ymyl gorsaf y nyrsys o bosibl weld cynnwys nodiadau achos cleifion eraill.

Nodwyd gennym fod yr ystafell brofedigaeth yn dywyll iawn ac yn ddigroeso i berthnasau gofidus neu berthnasau a oedd wedi cael profedigaeth ac y byddai o bosibl yn werth ei hailaddurno.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r bwrdd iechyd wneud y canlynol:

- Sicrhau bod y staff yn cau drws yr ystafell brysbennu er mwyn diogelu urddas, preifatrwydd a chyfrinachedd cleifion
- Sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r ffordd y gall y staff gael sgysiau preifat a chyfrinachol â chleifion yn yr uned mân anafiadau
- Sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i wella'r décor yn yr ystafell brofedigaeth.

#### Gwybodaeth i gleifion

Gwelsom amrywiaeth o daflenni a gwybodaeth hybu iechyd dwyieithog a oedd ar gael i'r cleifion a'u teuluoedd yn y ddwy uned, a oedd yn cynnwys ymwybyddiaeth o alcohol, hydradu, gofal dementia a diabetes, ac roedd hysbysfwrdd sepsis penodedig hefyd yn amlwg.

Mae'r arwyddion o amgylch yr unedau wedi cael eu gwella'n sylweddol, er y byddai o fudd gosod arwyddion ychwanegol yn MEACU, er mwyn hysbysu'r cleifion pan fyddant yn cyrraedd nad oes aelod o staff yn bresennol yn y dderbynfa ac y dylent eistedd ac aros i gael eu galw. Gwnaethom hysbysu'r uwch-reolwyr am hyn yn ystod ein harolygiad.

Roedd gwybodaeth ar gael am y Cyngor Iechyd Cymuned (CIC)<sup>1</sup> a'r Gwasanaethau Cyngor a Chyswllt Cleifion (PALS)<sup>2</sup>.

## Cyfathrebu'n effeithiol

Gwelsom y staff yn cyfathrebu'n effeithiol â'i gilydd, a gyda'r cleifion a'u teuluoedd yn ystod yr arolygiad. Gwelsom y staff yn siarad mewn llais digon isel ond clir â'r cleifion er mwyn helpu i gynnal cyfrinachedd. Gwelsom hefyd, er eu bod yn brysur iawn yn eu rolau, fod y staff bob amser yn barod i siarad a gwrando'n effeithiol. Nododd un claf:

*"Mae pob aelod o'r staff yn yr Uned Damweiniau ac Achosion Brys wedi cyfathrebu â mi drwy gydol y broses, gan drafod beth oedd yn digwydd a beth sy'n mynd i ddigwydd"*

Fodd bynnag, mynegodd un claf bryder o ran cyfathrebu â'r staff:

*"Diffyg cyfathrebu ar ran y meddygon"*

Dywedodd tua hanner yr ymatebwyr nad oeddent wedi cael cynnig yr opsiwn i gyfathrebu yn eu dewis iaith, ond bod y staff wedi defnyddio'r enw roeddent yn ei ffafrio. Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau ei fod yn cydnabod anghenion iaith unigol ac yn eu diwallu.

Gwelsom aelodau o'r staff yn gwisgo laniardau a oedd yn nodi eu bod yn gallu siarad Cymraeg, ac roedd hyn hefyd yn amlwg drwy fathodyn bach ar eu gwisg. Nododd rhai o'r staff hefyd eu bod wrthi'n dysgu siarad Cymraeg ar hyn o bryd.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r bwrdd iechyd wneud y canlynol:

- Sicrhau y caiff cleifion yr opsiwn i gyfathrebu yn eu dewis iaith.

---

<sup>1</sup> <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/899/hafan>

<sup>2</sup> [http://www.cardiffandvaleuhb.wales.nhs.uk/patient-advice-and-liaison-service-pals#:~:text=Contact%20PALS,5pm%20\(Monday%20to%20Friday\).&text=You%20can%20also%20e%20mail,Language\)%2C%20please%20use%20SignVideo.](http://www.cardiffandvaleuhb.wales.nhs.uk/patient-advice-and-liaison-service-pals#:~:text=Contact%20PALS,5pm%20(Monday%20to%20Friday).&text=You%20can%20also%20e%20mail,Language)%2C%20please%20use%20SignVideo.)

## Gofal amserol

Gwelsom welliannau sylweddol yn lolfa'r Uned Asesu a'r Uned Asesu yn gyffredinol, mewn perthynas â phrofiad y claf a gofal diogel ac effeithiol. Cyflawnwyd hyn, nid yn unig drwy welliannau i'r Uned Asesu a'r Uned Achosion Brys, ond drwy welliannau yn yr ysbyty ehangach a newidiadau i fodolau gofal ar draws y byrddau clinigol hefyd. Yn deillio o hyn, gwelsom dystiolaeth hefyd fod mynediad amserol at ofal wedi gwella, ynghyd â gwelliannau sylweddol o ran staffio a recriwtio.

Roedd yr Uned Achosion Brys yn dawel pan wnaethom gyrraedd am 7.30am a dim ond nifer bach o gleifion a oedd wedi hunangyflwyno oedd yn yr ystafell aros. Nodwyd gennym nad oedd unrhyw ambiwlansys yn aros y tu allan i'r Uned Achosion Brys.

O gyfanswm o 20 o holiaduron a gwblhawyd, tynnodd sylwadau rhai cleifion sylw at bryderon ynghylch amseroedd aros, gan gynnwys y canlynol:

*“Roedd y gofal a gefais yn ardderchog. Yr unig siom yw'r cyfnod o amser y bu'n rhaid i mi ei dreulio heb wely. Bu'n rhaid i mi aros mewn cadair am dros 28 awr, ond rwy'n deall eich bod yn brin o staff a bod prinder gwelyau”*

*“Mae'r gofal a'r driniaeth yn dda iawn. Ond mae'r amseroedd aros yn hir iawn pan fydd unigolyn yn teimlo'n sâl, ond rwy'n sylweddoli bod hynny'n anochel”*

Fodd bynnag, gwnaeth rhai cleifion sylwadau cadarnhaol mewn perthynas â'r gofal amserol a gawsant, gan gynnwys y canlynol:

*“Cefais sylw prydlon”*

Aethom i gyfarfod llif cleifion boreol yr ysbyty. Nodwyd gennym fod y rheolwyr llif cleifion yn trafod llawer o faterion a oedd yn ymwneud â llif cleifion yn yr ysbyty ac yn y bwrdd iechyd, gan gynnwys argaeledd gwelyau, statws cyfredol yr Uned Achosion Brys, llif cleifion drwy'r ysbyty cyfan, cleifion â blaenoriaeth yr oedd angen gwelyau arnynt ar frys a chleifion a fyddai o bosibl yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty.

Mae gan y bwrdd iechyd amrywiaeth o weithdrefnau gweithredu safonol cynhwysfawr sy'n nodi manylion llif cleifion yn yr Uned Achosion Brys ac o amgylch yr ysbyty yn effeithiol.

## Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r bwrdd iechyd wneud y canlynol:

- Sicrhau y caiff anghenion cysur a gofal y cleifion eu diwallu pan fyddant yn aros am gyfnodau hir yn yr Uned Achosion Brys.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Roedd swyddi nyrsio wedi'u llenwi yn y ddwy uned, ac yn ardal lolfa'r Uned Asesu ers ein harolygiad diwethaf. Roedd yn bleser gennym nodi fod yr ardal hon bellach wedi'i goruchwyllo bob amser, a bodd y staff yn gallu darparu gofal priodol a chymorth angenrheidiol i'r cleifion. Dywedodd yr uwch-reolwyr wrthym er nad oeddent yn rhan o'u staff nyrsio arferol, eu bod wedi gwario symiau ychwanegol at y gyllideb drwy gynyddu nifer y staff yn y lolfa, er mwyn cynnal diogelwch cleifion a sicrhau profiad cadarnhaol i gleifion.

## Darparu gofal diogel ac effeithiol

*Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth fod y prosesau a'r systemau a oedd ar waith yn ddigonol i sicrhau bod y cleifion yn cael gofal diogel ac effeithiol o safon dderbyniol yn gyson, a bod y staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal o'r fath.

Roedd yn gadarnhaol nodi bod y bwrdd iechyd wedi cymryd camau ac wedi gwneud gwelliannau sylweddol i'r amgylcheddau a'r modelau gofal, ynghyd â'u systemau a'u prosesau, mewn ymateb i'r cynllun gwella a gyhoeddwyd gennym ym mis Mawrth 2019.

Fodd bynnag, roedd gennym bryder uniongyrchol mewn perthynas â rhoi gofal diogel i gleifion. Roedd hyn yn ymwneud â'r ffaith nad oedd gan rai cleifion a oedd yn derbyn trwythiadau cyffuriau neu hylif fandiau adnabod, ac ymdriniwyd â hyn o dan ein proses sicrwydd uniongyrchol.

Nodwyd hefyd rai materion a allai gael effaith andwyol ar ddiogelwch cleifion ac y mae felly angen eu gwella.

### **Y meysydd lle roedd angen sicrwydd uniongyrchol yn ystod yr arolygiad diwethaf**

Roedd y meysydd i'w gwella ar unwaith a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf yn cynnwys y canlynol:

#### *Yr Uned Achosion Brys a'r Uned Asesu*

- Adolygiad o'r model gofal ar gyfer rheoli cleifion sy'n eistedd yn lolfa'r Uned Asesu gan gynnwys ateb er mwyn sicrhau y gall y rheini sy'n ddifrifol wael orwedd ar wely/troli
- Adolygiad o'r ddarpariaeth gofal bresennol er mwyn sicrhau bod gofal cleifion yn ystyried briwiau pwysu, atal cwympiadau a maeth a hydradu priodol

- Adolygiad o'r cyflenwad nyrsys cofrestredig
- Sicrhau y ceir dealltwriaeth glir o'r rhesymau pam bod staff yn yr Uned Asesu o'r farn bod risg i ddiogelwch cleifion
- Sicrhau na chaiff cleifion eu trosglwyddo i'r Uned Asesu yn amhriodol o'r Uned Achosion Brys, er mwyn atal achosion o dorri'r rheol 12 awr
- Sicrhau bod cyfarpar/meddyginiaeth dadebru ar gael bob amser ac yn ddiogel i'w ddefnyddio pe bai argyfwng yn ymwneud â chlaf
- Sicrhau y caiff meddyginiaeth y mae'n rhaid ei chadw mewn oergell ei storio'n ddiogel ac ar y tymereddau cywir yn yr Uned Asesu a'r Uned Achosion Brys
- Sicrhau y caiff thermomedrau eu gosod yn yr oergelloedd a ddefnyddir i storio bwyd cleifion yn yr Uned Asesu, ac y caiff y tymereddau eu cofnodi bob dydd.

## **Pa gamau gweithredu y dywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd**

Ymrwymodd y gwasanaeth i gymryd y camau gweithredu canlynol yn ei gynllun gwella dyddiedig 7 Mehefin 2019:

### *Yr Uned Achosion Brys a'r Uned Asesu*

- Mae'r bwrdd iechyd yn ystyried opsiynau i leihau amseroedd aros yn yr Uned Asesu drwy ffrydio cleifion llawfeddygol i'r Uned Asesu Llawfeddygol a gweithio gyda phartneriaid allanol er mwyn nodi atebion i broblemau ehangach yn ymwneud â llif cleifion
- Adolygu'r ddarpariaeth gofal bresennol er mwyn sicrhau ei bod yn ystyried briwiau pwysu, atal cwmpadau a maeth a hydradu
- Sicrhau bod nyrs gofrestredig a gweithiwr cymorth gofal iechyd ychwanegol parhaol yn lolfa'r Uned Asesu 24 awr y dydd
- Rhoi mentrau ar waith i gynyddu nifer y nyrsys band pump a gyflogir, drwy weithio gyda phrifysgolion er mwyn recriwtio myfyrwyr, recriwtio nyrsys o dramor a rhaglenni addasu a dychwelyd i ymarfer. Ceir ffocws hefyd ar gadw nyrsys. Bydd llwybr recriwtio yn arwain at lenwi 26 o swyddi gwag a bydd yn mynd i'r afael â'r sefyllfa o ran swyddi gwag erbyn mis Mawrth 2020

- Rheolwyr i annog staff i gwblhau ffurflen Datix<sup>3</sup> er mwyn cofnodi'r achosion pan fyddant yn teimlo bod risg i ddiogelwch cleifion a'r rheswm dros hynny. Rheolwyr i gynnig cymorth a chyngor. Bydd y bwrdd iechyd yn ystyried cynnal Arolwg o Ddiwylliant Diogelwch neu'n rhoi Fframwaith Diogelwch Cleifion Manceinion ar waith
- Bydd y nyrs arwain yn adolygu'r holl ddigwyddiadau diogelwch cleifion y rhoddwyd gwybod amdanynt dros y chwarter blaenorol er mwyn penderfynu a oes unrhyw gamau gweithredu neu ymchwiliadau heb eu cwblhau
- Bydd y bwrdd iechyd yn defnyddio Gweithdrefn Gweithredu Safonol yr Uned Asesu i nodi risgiau o ran diogelwch cleifion, materion y mae angen eu huwchgyfeirio ac i gyflwyno system sgorio triniaeth ddydd<sup>4</sup> er mwyn gwella'r prosesau cyfredol ar gyfer nodi'r cleifion hynny sy'n wynebu risg glinigol. Caiff risgiau eu huwchgyfeirio yn ystod Sgrymiau 13.00 a 17.00. Caiff y cleifion hynny y nodir eu bod yn wynebu risg eu blaenoriaethu i gael troli/gwely. Bydd angen i'r staff ddilyn y broses uwchgyfeirio ar y cerdyn uwchgyfeirio yn y Weithdrefn Gweithredu Safonol
- Caiff hyd arhosiad yn yr Uned Asesu ei fonitro yn ystod cyfarfodydd gweithredol y Rheolwyr a chyflwynir adroddiad i'r Bwrdd. Sefydlwyd cynllun gwella 90 diwrnod er mwyn helpu'r Uned Achosion Brys a'r Uned Asesu i leihau hyd arhosiad cleifion, gwella profiad a chanlyniadau cleifion, gan ganolbwyntio ar yr un pryd ar ansawdd a diogelwch wedi'u hategu gan ffrydiau gwaith penodedig. Sgrymiau rheolaidd yn ystod y dydd er mwyn deall y risgiau i bob maes a sicrhau y caiff camau priodol eu cymryd i wella canlyniadau i gleifion ac y caiff achosion eu huwchgyfeirio'n ffurfiol er mwyn sicrhau cymorth ychwanegol pan fo angen. Cynhelir y broses o flaenoriaethu cleifion o fewn ôl troed yr Uned Achosion Brys yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru sy'n rheoli amseroedd trosglwyddo i unedau achosion brys. Bydd y bwrdd iechyd yn sicrhau bod ei brosesau rheoli llif yn nodi ac yn cofnodi cyfnodau aros hir yn yr Uned Asesu er mwyn

---

<sup>3</sup>System ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau

<sup>4</sup>Symleiddio'r llif cleifion drwy'r adran drwy asesu eu hanghenion meddygol gan ddefnyddio system sgorio.

sicrhau bod cleifion yn cael eu blaenoriaethu yn unol â phrosesau blaenoriaethu clinigol

- Cynhelir gwiriadau wythnosol ar droliâu diffibrilio gan uwch-nyrsys er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r broses ochr yn ochr â'r amserlen ar gyfer ymweliadau dirybudd gan y tîm safonau nyrsio proffesiynol corfforaethol
- Y staff i gynnal gwiriadau dyddiol o'r oergelloedd a'r cyffuriau gydag uwch-nyrs yn cynnal hapwiriadau. Mae'r oergelloedd bwyd yn yr Uned Asesu wedi cael eu condemnio. Mae trefniadau storio amgen addas a gwiriadau ar waith ar gyfer oeri bwyd, ochr yn ochr â'r amserlen ar gyfer ymweliadau dirybudd gan y tîm safonau nyrsio proffesiynol corfforaethol.

## **Yr hyn a welsom yn ystod yr ymweliad dilynol**

Roeddem yn falch gweld bod y bwrdd iechyd wedi cyflwyno'r rhan fwyaf o'r gwelliannau a restrwyd yn ei gynllun gweithredu ar ôl yr arolygiad diwethaf ac wedi parhau i'w gweithredu. Fodd bynnag, roedd angen gwella rhai meysydd ymhellach, a thynnir sylw at y meysydd hynny isod.

## **Y gwelliannau ychwanegol yr oedd eu hangen yn dilyn yr arolygiad diwethaf**

Roedd y meysydd ychwanegol i'w gwella yr oedd eu hangen yn dilyn yr arolygiad diwethaf yn cynnwys y canlynol:

- Mae angen rhoi amserlenni glanhau ar waith sy'n cynnwys gwiriadau annibynnol rheolaidd o'r amgylchedd a chyfarpar a system er mwyn sicrhau y caiff eitemau sydd wedi treulio eu hatgyweirio neu y caiff eitemau newydd eu gosod yn eu lle.
- Sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddiogelwch gweithwyr unigol yn yr ystafell brysbennu i oedolion
- Sicrhau y caiff cyfleusterau storio eu hadolygu ac ymdrin â'r cyfarpar sy'n cael ei storio mewn coridorau
- Sicrhau bod asesiadau risg yn cael eu cwblhau ar gyfer briwiau pwysu a'r croen a bod y staff nyrsio yn symud cleifion yn rheolaidd pan fo'n briodol
- Sicrhau bod gan bob claf gynllun asesu a gofalu am y geg

- Sicrhau bod y staff yn dogfennu siartiau meddyginiaeth yn llawn, gan gynnwys unrhyw hylifau IV a roddir ac ocsigen a ragnodir
- Sicrhau bod ardal trin y llygaid a phob cwpwrdd cyffuriau arall yn cael eu cadw dan glo pan nad ydynt yn cael eu defnyddio
- Sicrhau bod y staff yn cael hyfforddiant priodol ym maes rheoli meddyginiaethau, heintiau, atal a rheoli, hylendid dwylo, asesiadau risg mewn perthynas â chwympiadau, anghenion maethol cleifion, y Ddeddf Iechyd Meddwl a threfniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid
- Sicrhau y caiff asesiadau poen eu cynnal ar gyfer cleifion a'u dogfennu lle y bo'n berthnasol
- Sicrhau y caiff data adnabyddadwy a chofnodion gofal cleifion eu cadw'n ddiogel bob amser.

## **Pa gamau gweithredu y dywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd**

Ymrwymodd y gwasanaeth i gymryd y camau gweithredu canlynol yn ei gynllun gwella:

- Mae amserlenni glanhau ar waith ar gyfer yr adran. Mae C4C<sup>5</sup> yn cynnal archwiliadau amgylcheddol bob wythnos. Bydd y nyrs â chyfrifoldeb yn sicrhau bod aelod o'r tîm nyrsio yn cael ei neilltuo i helpu â'r broses archwilio hon. Caiff y canlyniadau eu hanfon at y nyrs arwain i'w hadolygu.
- Cyfrifoldeb y staff nyrsio yw glanhau'r cyfarpar a chaiff y gwaith hwn ei gynnwys yn y rhestr wirio ddyddiol ar gyfer y staff nyrsio. Mae pob aelod o'r staff wedi cael ei atgoffa o'i rôl a'i gyfrifoldeb
- Caiff adolygiad o ddodrefn a chyfarpar ei gynnal er mwyn sicrhau bod yr holl gyfarpar sydd wedi'i ddifrodi yn cael ei gondemnio a'i waredu. Mae soffâ newydd bellach wedi cael ei rhoi yn yr ystafell asesu iechyd meddwl. Cafwyd gwared ar y fainc eistedd yn yr Uned Achosion Brys

---

<sup>5</sup> System 'Credits for Cleaning' sy'n orfodol fel rhan o safonau glendid cenedlaethol

bediatrig. Cafwyd gwared ar yr holl droliau a chyfarpar a oedd wedi torri o'r adran a gosodwyd biniau newydd

- Caiff drws siglo ei osod yn yr ystafelloedd brysbennu er mwyn darparu ail fynedfa/allanfa
- Mae'r Uned Asesu wedi cael ei thacluso a chynhaliwyd gwaith glanhau dwfn yno. Bwriedir gwneud yr un peth yn yr Uned Achosion Brys erbyn diwedd mis Mehefin 2019
- Rhoddir ystyriaeth i'r modd y gellir storio eitemau mwy yn yr adran mewn ffordd fwy diogel. Mae rheolwr stoc yn adolygu lefelau stoc yr adran ac yn archebu stoc newydd bob dydd er mwyn atal stoc rhag cronni a rhoi pwysau ychwanegol ar y gofod storio
- Mae'r hapwiriadau stoc dyddiol a gynhelir gan y nyrs â chyfrifoldeb yn cynnwys nodi peryglon baglu a chael gwared arnynt. Caiff materion na ellir eu datrys ar unwaith eu nodi a'u huwchgyfeirio i'r uwch-nyrs
- Ceir amserlen benodol o asesiadau risg er mwyn sicrhau y cânt eu cwblhau mewn modd amserol. Dylid cwblhau asesiadau Waterlow<sup>6</sup> o fewn 6 awr i'r adeg pan fydd claf yn cyrraedd. Caiff cleifion sy'n agored i niwed eu blaenoriaethu a chaiff asesiadau risg eu cwblhau yn gynt. Mae pob aelod o'r staff wedi cael ei atgoffa i asesu pob claf am y risg o ddatblygu niwed pwyso
- Caiff llyfryn nyrsio newydd ei roi ar waith yn yr adran sy'n cynnwys canllawiau ar sut i nodi a graddio briwiau pwyso, defnyddio rhwymynnau a chyfarpar a gwaith cynllunio gofal parhaus. Mae trefniadau gwirio rheolaidd ar waith mewn perthynas â'r hanfodion gofal ar gyfer pob claf priodol ac maent yn cynnwys symud cleifion ac archwilio manau pwyso bob dwy awr.
- Bydd y bwrdd iechyd yn meincnodi arferion yn erbyn byrddau iechyd cyfagos er mwyn nodi prosesau i gefnogi'r gwaith o leihau niwed pwyso
- Caiff pob gradd o niwed pwyso ei chofnodi a'i monitro gan ddefnyddio Adnodd Niwed Pwyso Cymru Gyfan. Cynhelir archwiliadau misol o

---

<sup>6</sup> Graddfa wedi'i dilysu a ddefnyddir i ategu barn glinigol wrth asesu cleifion am y risg o ddatblygu briw pwyso yw Asesiad Waterloo.

gydymffurfiaeth. Caiff y canlyniadau eu cyflwyno drwy gyfarfod Ansawdd a Diogelwch yr adran

- Mae'r Grŵp Niwed Pwyso yn treialu dull gweithredu i graffu mwy ar niwed pwyso er mwyn sicrhau y caiff y gwersi a ddysgir o'r arolygiad eu lledaenu ar draws y bwrdd iechyd
- Cynhelir proses feincnodi gydag ymarfer mewn sefydliadau eraill er mwyn sicrhau bod arfer gorau yn cael ei ddilyn
- Dylid cynnal asesiad risg o gwmpo ar gyfer pob claf o fewn pedair awr iddo gyrraedd yr adran. Mae pob aelod o'r staff wedi cael ei atgoffa o'r cyfrifoldeb hwn. Cynhelir archwiliad o gydymffurfiaeth yn erbyn y safon hon bob mis ac adroddir ar ganlyniadau'r archwiliad bellach drwy gyfarfod Ansawdd a Diogelwch yr adran.
- Bydd y Bwrdd Iechyd Prifysgol yn meincnodi arferion yn erbyn byrddau iechyd er mwyn nodi prosesau i gefnogi'r gwaith o leihau nifer y Cwmpadau sy'n arwain at Anaf.
- Mae tîm addysg yr adran wedi bod i sesiwn 'hyfforddi'r hyfforddwy'r' yn yr ystafell efelychu cwmpadau ac mae bellach yn ymgymryd â dull fesul cam at hyfforddi staff yr adran gyda gweithwyr cymorth gofal iechyd yn cael eu hyfforddi i ddechrau
- Mae Arweinydd y Strategaeth Cwmpadau, ar y cyd â'r Grŵp Cyflawni mewn perthynas â Chwmpadau, wrthi'n ystyried yr opsiynau ar gyfer hyfforddiant cwmpadau ar-lein i'r bwrdd iechyd, a byddant yn sicrhau y caiff y gwersi a ddysgir o'r arolygiad eu lledaenu ar draws y bwrdd iechyd
- Mae amserlenni glanhau ar waith ar gyfer yr adran. Mae C4C yn cynnal archwiliadau amgylcheddol bob wythnos a bydd y nyrs â chyfrifoldeb yn sicrhau bod aelod o'r tîm nyrsio yn cael ei neilltuo i helpu â'r broses archwilio hon ac i amlygu materion. Caiff canlyniadau'r archwiliadau amgylcheddol eu hanfon at y nyrs arwain i'w hadolygu
- Atgoffwyd pob aelod o'r staff o bwysigrwydd hylendid dwylo sylfaenol a phwysigrwydd golchi a diheintio dwylo rhwng cleifion
- Cynhelir archwiliadau misol o hylendid dwylo sy'n cynnwys achosion o olchi dwylo ac amlygu'r croen islaw'r penelinoedd. Adroddir ar gydymffurfiaeth a chaiff ei fonitro drwy'r Adolygiadau Perfformiad Gweithredol. Bydd hyn hefyd yn cael ei adrodd drwy gyfarfodydd misol y Weithrediaeth Ansawdd a Diogelwch (QSE).

- Disgwylir i bob aelod o'r staff gwblhau hyfforddiant gorfodol lefel 1 mewn Atal a Rheoli Heintiau. Cafwyd lefel gydymffurfiaeth o 70% ym mis Ebrill. Bydd yr adran yn gweithio tuag at lefel gydymffurfiaeth o 100%
- Atgoffir pob aelod o'r staff o'r angen i gwblhau'r hyfforddiant ac ni chaiff Adolygiadau Arfarnu a Datblygu Personol (PADR)<sup>7</sup> eu cymeradwyo heb gwblhau hyfforddiant gorfodol
- Rhaid cwblhau asesiad risg o lefelau maeth claf o fewn 24 awr iddo gael ei dderbyn i'r adran. Mae pob aelod o'r staff wedi cael ei atgoffa o'r gofyniad hwn
- Bydd y tîm addysg yn sicrhau bod hyfforddiant ynghylch asesu ac optimeiddio maeth ar gael i bob aelod priodol o'r staff. Cynhelir archwiliad o gydymffurfiaeth yn erbyn y safon hon bob mis ac adroddir ar ganlyniadau'r archwiliad bellach drwy gyfarfod Ansawdd a Diogelwch yr adran
- Caiff gofal y geg ei gynnwys ar y ddogfen rowndiau bwriadol (hanfodion gofal) ac o ganlyniad, dylai gael ei ystyried bob dwy awr. Mae'r staff wedi cael eu hatgoffa o'r gofynion hyn
- Caiff asesiad o ofal y geg y bwrdd iechyd ei gyflwyno yn yr adran. Bydd y tîm addysg yn cynnal asesiad hyfforddi ac yn datblygu poster i'r staff i'w hatgoffa i ddefnyddio'r cwestiynau sbardun i nodi cleifion y mae angen iddynt gael cymorth gyda gofal y geg a sbarduno asesiad llawn. Mae pecynnau gofal y geg ar gael ym mhob rhan o'r adran
- Mae'r adran fferylliaeth yn cynnal archwiliadau misol o fetrigau rhagnodi a gweinyddu meddyginiaeth yn yr uned asesu. Mae'r rhain yn cynnwys statws alergedd, asesiad risg VTE<sup>8</sup>, rhagnodi thromboproffylacsis (atal clotiau rhag ffurfio yn y gwythiennau), dosiau a hepgorwyd a dosiau adegau critigol a hepgorwyd. Caiff canlyniad yr archwiliadau hyn eu rhannu â'r cyfarwyddwyr clinigol a'r uwch-nyrsys.

---

<sup>7</sup> Arfarniad personol o'u gwaith gan y staff yw Adolygiad Arfarnu a Datblygu Personol ac fel rhan o'r broses, datblygir amcanion personol

<sup>8</sup> <https://www.worldthrombosisday.org/issue/vte/>

Caiff y canlyniadau bellach eu cyflwyno a'u hadolygu mewn fforymau Ansawdd a Diogelwch lleol a chyfarfodydd meddygon ymgynghorol.

- Caiff pwysigrwydd cofnodi statws alergedd, gweinyddu hylifau mewnwythiennol a rhagnodi ocsigen yn gywir ei godi gan y cyfarwyddwr clinigol yn y cyfarfod meddygon ymgynghorol nesaf ac yng nghyfarfod Ansawdd a Diogelwch yr adran
- Caiff yr ardal trin llygaid bellach ei chloi pan na fydd yn cael ei defnyddio
- Ystyrir yr arfer o reoli meddyginiaethau fel rhan o'r broses Adolygiadau Arfarnu a Datblygu Personol a chaiff anghenion datblygu eu nodi
- Caiff materion sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau a nodir o ganlyniad i'r arolygiad hwn eu cynnwys yn y Cylchlythyr Diogelwch Cleifion nesaf a hefyd yn y cylchlythyr Diogelwch Meddyginiaethau nesaf
- Rhoddir sesiwn ddiweddarau bwrpasol ar y Ddeddf Iechyd Meddwl a'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS)<sup>9</sup> i bob aelod o staff perthnasol yn yr Uned Achosion Brys/Uned Asesu
- Yn ogystal, mae hyfforddiant ar y Ddeddf Galluedd Meddyliol yn orfodol ac mae'r e-ddysgu yn hygyrch i bob aelod o staff. Ers dechrau mis Mai, caiff hyfforddiant a gwblheir ei gofnodi ar y Cofnod Staff Electronig (ESR). Caiff hanes presenoldeb yn yr hyfforddiant ei nodi ac adroddir ar gydymffurfiaeth adrannol o fewn mis. Caiff cydymffurfiaeth â'r hyfforddiant ar y Ddeddf Galluedd Meddyliol ei hadolygu a'i monitro drwy'r adolygiadau perfformiad
- Rhoddodd rheolwr y Ddeddf Galluedd Meddyliol hyfforddiant wyneb yn wyneb i bob aelod o'r staff nyrsio y llynedd. Caiff hyn ei ailadrodd bob hyn a hyn
- Nodir gweithiwr cyswllt iechyd meddwl ac arweinydd o blith y meddygon ymgynghorol i helpu staff gyda materion sy'n ymwneud ag

---

<sup>9</sup> Mae'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DOLS) yn rhan o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005. Nod y trefniadau diogelu yw sicrhau y gofelir am bobl mewn cartrefi gofal ac ysbytai mewn ffordd nad yw'n cyfyngu'n amhriodol ar eu rhyddid.

asesiadau o dan y trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid a Galluedd Meddyliol

- Mae'r Tîm Gwella Gwasanaeth wrthi'n cynnal prosiect er mwyn adolygu'r dogfennau asesu poen. Caiff yr asesiad o boen ei gynnwys ar waelod y siart Sgôr Rhybudd Cynnar Cenedlaethol<sup>10</sup> (NEWS) er mwyn gwella gwelededd a chydymffurfiaeth. Caiff effeithiolrwydd y gwelliant yn y gwasanaeth ei werthuso ddeufis ar ôl cyflwyno'r ddogfen. Mae adnodd asesu poen penodol ar gael ar gyfer cleifion ag anabledd dysgu.
- Yn yr Uned Achosion Brys bediatrig, mae'r adnodd asesu poen yn gysylltiedig â chanllawiau ynghylch rhagnodi analgesia
- Mae'r Bwrdd Iechyd Prifysgol wedi cael trafodaethau yn ddiweddar â'r Comisiynydd Gwybodaeth ynghylch storio gwybodaeth am gleifion yn ddiogel. Amlygodd hyn yr angen i gydbwysu'r risg o dorri data â'r risg glinigol sy'n gysylltiedig ag anawsterau wrth gael gafael ar gofnodion a nodwyd nad oedd gofyniad penodol i gadw nodiadau mewn cyfleusterau dan glo os oedd risg niweidiol ynghylch gofal clinigol
- Caiff pob aelod o'r staff ei atgoffa i sicrhau bod cofnodion yn cael eu storio'n ddiogel, bod pob cofnod yn cael ei ddychwelyd i'r troli nodiadau a bod y troli yn cael ei gadw ar gau pan na fydd yn cael ei ddefnyddio
- Dylai pob aelod o'r staff clinigol fod yn gwisgo bathodyn adnabod amlwg ac felly y gellir ei adnabod yn rhwydd. Mae staff clinigol yn bresennol mewn gorsafoedd nyrsio yn yr uned Asesu bob awr o'r dydd ac felly mae cofnodion meddygol yn y golwg bob amser. Mae hyn yn gymwys i gofnodion cleifion sy'n derbyn gofal yn yr adran ar y pryd
- Caiff cofnodion cleifion sydd wedi cael eu rhyddhau o'r adran eu trosglwyddo i gyfleuster storio diogel
- Atgoffwyd pob aelod o'r staff o'r angen i ddiogelu gwybodaeth adnabyddadwy yn briodol

---

<sup>10</sup> Yn pennu graddau salwch claf ac yn arwain at ymyriadau gofal critigol.

- Mae nifer o fentrau ar waith er mwyn gwella llesiant a morâl staff. Mae hyrwyddwyr llesiant ar waith ym mhob rhan o'r adran. Caiff tudalen Facebook gaeedig ei chynnal er mwyn cyfathrebu ag aelodau o'r staff. Caiff y wybodaeth ddiweddaraf ei hychwanegu i fwrdd cyfathrebu
- Mae'r Bwrdd Clinigol yn cerdded o amgylch yr adran yn rheolaidd
- Cafodd canlyniadau arolwg staff y bwrdd iechyd eu cyflwyno ar lefel adrannol. Bellach, mae cynllun i gynnal Arolwg Pwls o staff o fewn 2 fis.
- Caiff canlyniadau monitro iechyd a gofal bellach eu cyflwyno drwy gyfarfodydd Ansawdd a Diogelwch yr Adran.
- Mae diwrnod cwrdd i ffwrdd yn cael ei gynnal i nyrsys bob tri mis a chaiff pawb gyfle i fynychu. Caiff cofnodion o bob cyfarfod eu dosbarthu i bob aelod o'r staff.
- Rhoddir gwybod i reolwr am bob digwyddiad Datix a chaiff adborth ei anfon at y sawl a roddodd wybod am y digwyddiad mewn perthynas â'r camau gweithredu. Cynhelir adolygiad o'r holl ddigwyddiadau a gofnodir er mwyn sicrhau yr ymchwiliir/ymchwiliwyd i bob un yn briodol
- Mae'r Pennaeth Diogelwch Cleifion a'r nyrs arwain ar gyfer yr Uned Achosion Brys/Uned Asesu yn cwrdd i drafod llywodraethu, strwythur a phroses yn yr Uned Achosion Brys er mwyn rhoi cynllun ar waith i atgyfnerthu systemau presennol a mynd i'r afael ag unrhyw faterion a godir gan y staff
- Bydd y tîm Diogelwch Cleifion yn cynnal sesiwn wedi'i theilwra'n benodol i staff er mwyn ymdrin ag egwyddorion diogelwch cleifion sylfaenol, y trefniadau ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau, ymchwilio a rheoli, diwylliant diogelwch a diwylliant teg a chyfiawn, safonau iechyd a gofal/Datganiad Ansawdd Blyneddol, y fframwaith ansawdd, diogelwch a gwella ac archwilio clinigol
- Mae prosesau 'Safety Valve' y bwrdd iechyd ar waith er mwyn helpu staff i godi pryderon yn gyfrinachol yn uniongyrchol i'r Cadeirydd. Tynnwyd sylw staff ym mhob rhan o'r adran at y dull 'Safety Valve' drwy'r holl sianelau cyfathrebu
- Adolygir a chytunir ar nifer y nyrsys gan y Cyfarwyddwr Nyrsio gweithredol bob chwe mis. Caiff achosion o fethu â bodloni lefelau staffio y cytunwyd arnynt eu hamlygu i'r dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio Gweithredol bob dydd

- Adroddir ar gyfraddau llenwi banc ac asiantaeth drwy'r adolygiadau perfformiad misol a chaiff risgiau eu hamlygu. Cynnal asesiadau risg o bwysau ar feysydd gwahanol yn yr adran. Bydd uwch-nyrsys yn gweithio'n glinigol er mwyn llenwi bylchau pan fydd angen ac maent ar gael er mwyn uwchgyfeirio risgiau
- Amlygwyd y broses o gwblhau Adolygiadau Arfarnu a Datblygu Personol erbyn band 7 fel blaenoriaeth a chaiff ei monitro drwy'r adolygiadau perfformiad.
- Bydd Uwch-nyrsys yn codi achosion o berfformiad unigol mewn perthynas â chynnal Adolygiadau Arfarnu a Datblygu Personol yn y cyfarfodydd unigol misol
- Bydd y Bwrdd Iechyd Prifysgol yn paratoi crynodeb o'r gwersi a ddysgwyd ac yn datblygu adnodd sicrwydd ar gyfer meysydd eraill yn y Bwrdd Iechyd Prifysgol er mwyn sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu a'u rhoi ar waith yn eang ac mewn ffordd mor briodol â phosibl.

## Yr hyn a welsom yn ystod yr ymweliad dilynol

Roeddem yn falch gweld bod y bwrdd iechyd wedi cyflwyno'r rhan fwyaf o'r gwelliannau a restrwyd yn ei gynllun gweithredu ar ôl yr arolygiad diwethaf ac wedi parhau i'w gweithredu, mewn perthynas â darparu gofal diogel ac effeithiol. Fodd bynnag, roedd angen gwella rhai meysydd ymhellach, a thynnir sylw pellach at y meysydd hynny isod.

## Canfyddiadau ychwanegol

### Gofal diogel

Gwelsom chwe chlaf yn lolfa'r Uned Asesu yn cael trwythiadau meddyginiaeth neu hylif, nad oeddent yn gwisgo bandiau adnabod cleifion ar eu harddwrn. Gallai peidio â rhoi band adnabod ar arddwrn claf arwain at achos o gamadnabod a chyfaddawdu gofal cleifion a diogelwch. Ymdriniwyd â'n pryderon o ran y diffyg bandiau adnabod o dan ein proses sicrwydd uniongyrchol. Golygai hyn ein bod wedi ysgrifennu i'r bwrdd iechyd ar unwaith yn dilyn yr arolygiad yn ei gwneud yn ofynnol bod camau unioni brys yn cael eu cymryd. Mae manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad B.

### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd arwyddion wrth fynedfa'r Uned Achosion Brys yn nodi ei bod yn ardal dim smygu, a nodwyd gennym yn gyffredinol nad oedd unrhyw fonion sigarêts i'w

gweld. Roedd y fynedfa i'r ystafell aros yn cynnig mynediad i unigolion â nam corfforol drwy ddrysau awtomatig mawr.

Gwelsom fod eitemau yn cael eu storio yn y coridorau rhwng yr Uned Asesu a MEACU ac roedd perygl y gallai'r cleifion a'r staff faglu drostynt. Gwnaethom hysbysu'r staff am hyn yn ystod yr arolygiad.

Gwelsom fod y ffabrig ar un o'r cadeiriau yn lolfa'r Uned Asesu wedi rhwygo, gan felly gynyddu'r risg o groes-heintio. Nodwyd gennym hefyd y gallai'r seddau sefydlog caled yn lolfa'r Uned Asesu achosi rhywfaint o anghysur pe bai'n rhaid i'r cleifion eistedd arnynt am gyfnodau hir, a gwelsom gadeiriau a oedd yn cael eu defnyddio yn yr Uned Achosion Brys bediatrig a oedd wedi'u difrodi ac yn fudr. Rhoddwyd gwybod i'r Nyrs â Chyfrifoldeb am y materion hyn er mwyn ysgogi'r camau gweithredu priodol. Cawsom wybod fod y cadeiriau plastig wedi cael eu symud oddi yno.

Roedd cyfleusterau'r ystafell staff yn gyfyng ac roedd y staff yn gosod bagiau a chotiau ar y llawr gan nad oedd digon o loceri ar gael. Roedd yr eitemau hyn yn achosi perygl baglu, a phan godwyd y mater hwn, cawsom wybod y byddai ystafell staff newydd ar gael cyn bo hir. Fodd bynnag, ni fyddai loceri ar gael i bob aelod o'r staff. Mae'n bosibl y byddai system loceri tocyn o fudd i'r bwrdd iechyd, er mwyn sicrhau mai dim ond pan fyddent ar ddyletswydd y byddai'r staff yn gallu eu defnyddio.

Cawsom wybod fod cyfres o dwneli yn cael eu defnyddio fel cyswllt mewnol ag ardaloedd eraill o'r ysbyty. Yn aml, roedd y cleifion yn cael eu trosglwyddo i wardiau ac i'r ysbyty Plant drwy'r twneli yn ystod y dydd a'r nos, er mwyn osgoi defnyddio ardaloedd mwy prysur a llawn yr ysbyty.

Dywedwyd wrthym fod y staff yn aml yn hebrwng plentyn drwy'r twnel ar eu pen eu hunain er mwyn lleihau'r amser yn aros am borthor. Nid oeddem yn sicr a oedd cyfleusterau CCTV digonol ar gael yn y twneli hyn er mwyn helpu i sicrhau diogelwch y cleifion a'r staff. Gwelsom hefyd fod mynedfa un o'r twneli yn gollwng dŵr a bod y dŵr yn diferu i'r llawr gan achosi problem o ran iechyd a diogelwch. Yn ogystal, roedd nifer o finiau gwaredu gwastraff yn cael eu cadw yn y twneli. Roedd y biniau hyn yn achosi perygl baglu i'r staff a oedd yn defnyddio'r twneli ac yn peri risg croes-heintio.

Roedd amserlenni glanhau ar waith ar gyfer y ddwy uned ac roeddent yn gweithio'n dda. Yn ogystal, gwelsom y staff nyrsio yn glanhau cyfarpar ac ardaloedd y gwelyau neu'r trolïau yn rheolaidd.

Nodwyd gennym nad oedd gan yr Uned Achosion Brys bediatrig ddiffoddwyr tân priodol. Roedd hyn yn peri risg i ddiogelwch y staff a'r cleifion. Nodwyd gennym

hefyd nad oedd y drysau a oedd yn arwain i mewn i'r uned wedi'u cloi ar adeg yr arolygiad. Mae angen rheoli mynediad er mwyn sicrhau diogelwch y plant ac er mwyn cynnal preifatrwydd ac urddas. Gwnaethom godi hyn â'r staff a oedd ar ddyletswydd.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r bwrdd iechyd wneud y canlynol:

- Sicrhau y caiff yr eitemau sydd wedi'u storio yn y coridorau rhwng yr Uned Asesu a MEACU ac sy'n achosi perygl baglu eu storio'n briodol
- Sicrhau y caiff dodrefn sydd wedi'i ddifrodi ei drwsio neu ei symud, gan osod dodrefn newydd yn ei le
- Sicrhau y rhoddir ystyriaeth i ddarparu loceri i'r staff pan fyddant ar ddyletswydd er mwyn gallu storio bagiau a dillad yn briodol ac osgoi gosod eitemau personol ar y llawr
- Sicrhau y cymerir camau i ymdrin â'r dŵr sy'n gollwng yn y twnel, asesu digonolrwydd cyfleusterau CCTV ac adleoli'r biniau gwaredu gwastraff sy'n achosi perygl baglu ar hyn o bryd
- Sicrhau y darperir y diffoddwyr tân priodol yn yr uned achosion brys bediatrig
- Sicrhau y cynhelir gwiriadau rheolaidd er mwyn gwneud yn siŵr bod drysau'r Uned Achosion Brys bediatrig wedi'u cloi er mwyn sicrhau diogelwch y plant.

### Atal briwiau pwyso a niwed i feinweoedd

Gwelsom fod Asesiadau Waterlow yn cael eu cynnal mewn modd amserol, a nodwyd gennym fod cleifion sy'n agored i niwed yn cael blaenoriaeth ac yn cael asesiad risg.

Nodwyd gennym fod y ddwy uned yn cynnal asesiadau risg ar gyfer briwiau pwyso ar gleifion. Roedd cynlluniau gofal ar waith, ac roedd camau yn cael eu cymryd lle y bo'n briodol i leihau niwed i feinweoedd, drwy ddefnyddio cymhorthion fel matresi chwyddadwy neu fatresi aer, ac roedd cynlluniau gofal unigol yn cael eu cwblhau er mwyn penderfynu pa ymyriadau yr oedd eu hangen ar gyfer pob claf. Roedd hyn yn welliant sylweddol o gymharu â chanfyddiadau ein harolygiad blaenorol.

Dywedodd yr uwch-reolwyr wrthym fod y defnydd o welyau isel â matresi lliniaru pwysau wedi lleihau nifer yr achosion o niwed i feinweoedd yn sylweddol.

Nododd cofnodion digwyddiadau ar Datix ym mis Ionawr a mis Chwefror 2020 er bod wyth claf wedi cael eu derbyn i'r Uned Asesu â niwed i feinweoedd, nad oedd unrhyw gleifion wedi dioddef niwed pwysu newydd yn ystod eu cyfnod yn yr Uned Asesu.

### Atal cwympiadau

Dywedwyd wrthym fod y defnydd o welyau isel ac ymyriadau ffisiotherapi wedi bod o gymorth mawr wrth leihau cwympiadau. Roedd atal cwympiadau hefyd yn rhan o'r rhaglen hyfforddi i bob aelod o'r staff.

Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd asesiadau cwympiadau bob amser yn cael eu cwblhau'n llawn ar gyfer y cleifion ar y ddwy uned a oedd yn aros i gael eu derbyn i'r ysbyty. Roedd hyn yn adleisio canfyddiad ein harolygiad diwethaf, felly mae angen gwelliannau pellach yn hyn o beth.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r bwrdd iechyd wneud y canlynol:

- Sicrhau y caiff asesiadau cwympiadau eu cwblhau'n llawn ar gyfer pob claf yn yr Uned Achosion Brys sy'n aros i gael ei dderbyn i'r ysbyty.

### Atal a rheoli heintiau

Gwelsom welliannau yn yr Uned Asesu a'r Uned Achosion Brys. Roedd yr unedau yn ymddangos yn lân ac nid oeddent mor anniben. Fodd bynnag, gwelsom fod rhai eitemau yn cael eu storio yn y prif goridorau ac ym mhob rhan o'r unedau, gan nad oedd digon o ardaloedd storio.

Roedd cyfarpar diogelu personol, fel ffedogau a menig tafladwy, ar gael ac yn cael ei ddefnyddio'n briodol i atal a rheoli heintiau yn effeithiol.

Nodwyd gennym fod y staff yn cydymffurfio â'r polisi noeth o dan y penelin, a gwelsom aelodau o'r staff yn lolfa'r Uned Asesu yn ymgymryd ag arferion hylendid dwylo sylfaenol ac yn golchi ac yn diheintio eu dwylo rhwng y cleifion.

Nodwyd gennym nad oedd rhai o'r peiriannau dŵr yfed yn yr adran yn cyflenwi cwpanau. O ganlyniad, roedd pobl yn ymdrin â'r deunydd lapio plastig a'r cwpanau, ac felly roedd risg groes-heintio.

## Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r bwrdd iechyd wneud y canlynol:

- Sicrhau bod peiriannau dŵr yfed yn cyflenwi cwpanau er mwyn osgoi achosion o groes-heintio.

## Maeth a hydradu

Nodwyd gennym wrth gyrraedd yr Uned Achosion Brys nad oedd unrhyw ddŵr yn cael ei ddarparu yn ystafell aros yr uned, er bod peiriannau gwerthu diodydd ar gael. Cafodd dŵr ei ddarparu'n fuan wedi hynny, ond nodwyd gennym drannoeth nad oedd y jygiau dŵr wedi cael eu hail-lenwi. Roedd yr Uned Asesu yn darparu dŵr, ond nid oedd y cwpanau plastig yn cael eu storio'n briodol a thrwy hynny achosi perygl posibl o groes-heintio, gan fod llawer o gleifion ac ymwelwyr yn eu trin a'u trafod.

Dywedodd y cleifion a oedd yn aros am ganlyniadau profion yn lolfa'r Uned Asesu nad oeddent wedi cael cynnig bwyd na diodydd. Gwnaethom hysbysu'r nyrs â chyfrifoldeb dros yr Uned Asesu am hyn, ac ymdriniwyd â'r mater ar unwaith.

Gwelsom fod y tîm deietetig yn cynnal asesiadau risg maethol yn yr Uned Asesu bob dydd. Roedd hyn wedi arwain at ganlyniadau maeth a hydradu gwell.

Mae peiriannau gwerthu ar gael yn y ddwy uned i'r cleifion brynu amrywiaeth o ddiodydd a byrbrydau. Dywedodd y cleifion wrthym eu bod hefyd yn ymweld â'r cyntedd a bwyty'r ysbyty weithiau.

Cawsom wybod nad oedd bwyd yn cael ei ddarparu fel mater o drefn i gleifion pediatrig gan fod lefel trosiant uchel ymhlith y cleifion, ond nodwyd gennym fod rhai brechedanau ar gael yn ystod ein harolygiad.

Yn yr Uned Achosion Brys bediatrig, roedd dŵr wedi'i ddarparu mewn jar gwydr a oedd wedi'i osod yn amhriodol ar bad ymataliaeth. Cawsom wybod nad oedd lle yn yr uned ar gyfer peiriant dŵr yfed. Nodwyd gennym fod angen gosod dŵr ffres yn y jar gwydr, a bod y pad ymataliaeth yn llaith. Nid oeddem yn siŵr am ba hyd yr oedd y dŵr na'r pad wedi bod yno, a thrwy hynny gynyddu'r risg bosibl o groes-heintio.

Roedd dŵr a diod ffrwythau hefyd ar gael o'r ystafell brysbennu ac roedd teuluoedd yn cael eu hannog i helpu eu hunain i'r diodydd hyn. Roedd gennym bryderon am hyn, gan fod yr ystafell hon yn cynnwys cyfarpar meddygol a TG a nwyddau traul eraill, a oedd felly'n hygyrch i bobl anawdurdodedig. Codwyd y pryder hwn â'r uwch-reolwyr yn ystod yr arolygiad.

Gwelsom ofal y geg yn cael ei roi i'r cleifion fel rhan o'r broses hanfodion gofal ac yn cael ei ddogfennu yn nodiadau achos y cleifion.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r bwrdd iechyd wneud y canlynol:

- Sicrhau y caiff dŵr yfed ffres ei ddarparu'n rheolaidd yn yr Uned Achosion Brys a'r Uned Achosion Brys bediatrig, ac y caiff cwpanau plastig eu storio'n briodol.
- Sicrhau y gosodir peiriant dŵr priodol yn yr Uned Achosion Brys bediatrig yn lle'r cynhwysydd dŵr annibynnol.

### Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod yr holl oergelloedd meddyginiaeth a'r holl thermomedrau yn cael eu harchwilio bob dydd. Nodwyd gennym fod hapwiriadau yn cael eu cynnal yn rheolaidd gan uwch-nyrs.

Nododd adolygiad o nodiadau achos cleifion yn yr Uned Achosion Brys nad oedd yr ocsigen a oedd yn cael ei ragnodi a'i roi i'r cleifion yn cael ei gofnodi ar siartiau meddyginiaeth. Nodwyd gennym hefyd nad oedd hylifau IV a oedd yn cael eu rhagnodi a'u rhoi i'r cleifion yn cael eu cofnodi ar siartiau hylif yr ysbyty. Dylid dogfennu cofnod o'r holl feddyginiaeth a'r holl hylifau IV a roddir i glaf ar y siartiau rhagnodi priodol.

Gwelsom ampylau (capsiwlaau gwydr bach sy'n cynnwys meddyginiaeth) rhydd yn y cwpwrdd cyffuriau. Dylid storio ampylau yn eu cynhwysydd neu eu blwch priodol, gyda'r daflen wybodaeth berthnasol. Nodwyd gennym nad oedd y cwpwrdd cyffuriau yng Nghiwbiol Llygaid yr Uned Achosion Brys wedi'i gloi, ac roedd amrywiaeth o ddiferion offthalmig wedi cael eu gadael heb oruchwyliaeth ar fwrdd gwaith, ac nad oeddent felly wedi'u storio'n ddiogel.

Gwelsom fin offer miniog a oedd yn orlawn, gan gynnwys nodwyddau, chwistrelli ac eitemau miniog eraill yn yr Uned Achosion Brys, gan felly achosi risg o anaf gan yr eitemau miniog a chroes-halogi. Cafwyd gwared ar y bin hwn a gosodwyd bin newydd yn ei le yn ystod ein harolygiad.

Nodwyd gennym nad oedd asesiadau a gwerthusiadau o boen y cleifion bob amser yn cael eu dogfennu yn nodiadau achos y cleifion. Felly, nid oedd unrhyw gofnod o effeithiolrwydd y triniaethau lleddfu poen a roddwyd.

## Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r bwrdd iechyd wneud y canlynol:

- Sicrhau y caiff yr ocsigen a ragnodir ac a roddir i'r cleifion ei gofnodi ar siartiau rhagnodi
- Sicrhau y caiff yr hylifau mewnwythiennol a ragnodir ac a roddir i'r cleifion eu cofnodi ar ddogfennaeth briodol a siartiau rhagnodi
- Sicrhau y caiff cypyrddau cyffuriau eu cloi ac y caiff meddyginiaeth ei storio'n ddiogel bob amser
- Sicrhau y defnyddir blychau offer miniog ac y ceir gwared ar eu cynnwys yn briodol
- Sicrhau y caiff asesiadau a gwerthusiadau o boen eu dogfennu yn nodiadau achos y cleifion.

## Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Roedd gan y bwrdd iechyd bolisiâu a gweithdrefnau ar waith i hybu a diogelu lles plant ac oedolion a oedd yn wynebu risg neu'n agored i niwed. Roedd hyfforddiant ar ddiogelu plant ac oedolion yn orfodol ac roedd prosesau digonol ar waith er mwyn sicrhau bod y staff yn cwblhau hyfforddiant a hyfforddiant gloywi.

Bellach, cynhelir sgrym ar y cyd rhwng yr Uned Achosion Brys a'r Uned Asesu ar gyfnodau rheolaidd yn ystod y dydd. Diben hyn yw uwchgyfeirio cleifion a gaiff eu blaenoriaethu yn ôl angen clinigol a'r sawl sy'n arbennig o agored i niwed. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod pwysau yn yr Uned Achosion Brys yn cael eu hystyried ar y cyd â phwysau yn yr Uned Asesu ac ardal y Lolfa, ac y caiff pob claf ei flaenoriaethu'n briodol yn ôl ei angen clinigol.

## Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom fod y troliâu dadebru wedi cael eu gwirio bob dydd ac ar ôl defnyddio troli ar gyfer claf yn yr Uned Asesu, bod y troli hwnnw yn cael ei ail-lenwi ar unwaith. Roedd gwiriadau rheolaidd a phriodol yn cael eu cynnal gan y nyrs â chyfrifoldeb ac yn cael eu monitro gan yr uwch-nyrs. Roedd hyn yn welliant amlwg o gymharu â'n harolygiad blaenorol, lle y bu'n rhaid i ni ymdrin â chydymffurfiaeth wael â'r gofynion ar gyfer gwirio cyfarpar dadebru o dan ein proses sicrwydd uniongyrchol.

Gwelsom fod oergelloedd bwyd yn cael eu gwirio'n rheolaidd a'u cofnodi'n briodol.

Nodwyd gennym fod sawl un o'r biniau yn ardal brysbennu'r Uned Achosion Brys wrth ymyl y peiriant gwerthu yn rhydyd ac mewn cyflwr gwael, a chodwyd hyn gennym yn ystod ein harolygiad.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r bwrdd iechyd wneud y canlynol:

- Sicrhau y gosodir biniau newydd yn ardal brysbennu'r Uned Achosion Brys.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Aethom i sgrymiau<sup>11</sup> diogelwch yr Uned Achosion Brys a'r Uned Asesu. Gwelsom y broses ar gyfer uwchgyfeirio cleifion, y rhoddwyd blaenoriaeth iddynt yn ôl angen clinigol a pha mor agored i niwed oeddent. Nodwyd gennym fod y camau gweithredu a gymerwyd yn ystod y sgrymiau hyn wedi gwella llif cleifion yn yr adran drwy gydol dau ddiwrnod yr arolygiad.

Yn ystod ein harolygiad, aethom i gyfarfod llif cleifion yr ysbyty. Roedd y cyfarfod hwn yn darparu trosolwg o lif cleifion yn yr ysbyty ac yn nodi cleifion â blaenoriaeth a chleifion y gellid o bosibl eu rhyddhau o'r ysbyty.

Nodwyd gennym fod y llif cleifion rhwng yr Uned Achosion Brys a'r TACU newydd ei chomisiynu wedi helpu i symud cleifion trawma mewn modd amserol i leoliad mwy priodol ac wedi lleddfu rhywfaint o'r pwysau yn yr Uned Achosion Brys a'r Uned Asesu. Comisiynwyd y TACU ers ein harolygiad y llynedd, fel rhan o gynllun gwella'r bwrdd iechyd yn dilyn arolygiad y llynedd. Dywedodd rheolwyr yn yr Uned Asesu wrthym fod llif cleifion wedi gwella ymhellach o ganlyniad i drefniadau ar gyfer ffrydio cleifion llawfeddygol i'r Uned Asesu Llawfeddygol 24

---

<sup>11</sup> Sesiwn friffio amlddisgyblaethol fer, a gynhelir ar amser ac mewn lleoliad amlwg, gan ganolbwyntio ar y cleifion sy'n wynebu'r risg fwyaf.

awr y dydd o ddydd Llun i ddydd Gwener, ac yn ystod y dydd yn ystod y penwythnos, yn hytrach na rhwng 8am a 6pm bob diwrnod. Yn ystod ein harolygiad dilynol, aethom i weld y ddwy uned hyn hefyd er mwyn deall y newid a wnaed, er na wnaethom eu harolygu. Gwelsom dystiolaeth wedi'i dogfennu fod y newidiadau hyn wedi gwneud gwelliannau a bod asesiadau a gofal amserol yn cael eu cynnig yn yr Uned Achosion Brys a'r Uned Asesu.

Dyweddodd yr uwch-reolwyr wrthym fod hapwiriadau o ddogfennaeth nyrsio yn cael eu cynnal yn rheolaidd gan uwch-nyrsys er mwyn archwilio lefelau cydymffurfiaeth o ran eu cwblhau. Caiff camau gweithredu eu cymryd i ymdrin ag unrhyw faterion sy'n codi, ond ni chaiff y canlyniadau eu harddangos. Nid yw canlyniadau hapwiriadau nac archwiliadau ar gael i'r staff ar hyn o bryd. Cawsom wybod fod yr ystafell staff yn cael ei hadleoli a bod y rheolwyr wrthi ar hyn o bryd yn ystyried y lleoliad gorau ar gyfer hysbyswrdd er mwyn i'r staff allu gweld y wybodaeth archwiliedig mewn ffordd fwy effeithiol.

Dyweddwyd wrthym fod y staff bob amser yn cael eu hannog i gwblhau ffurflen Datix i gofnodi unrhyw ddigwyddiadau diogelwch cleifion neu achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd.

Gwnaethom adolygu'r protocol ar y cyd sydd ar waith ar gyfer gofalu am gleifion sy'n dod i'r Uned Achosion Brys mewn ambiwlans. Mae'r protocol yn amlinellu'r hanfodion gofal mewn perthynas â hylendid cleifion a gofynion toiled, ond nid yw'n egluro pwy sy'n gyfrifol am roi cymorth i glaf pan fydd angen y lefel hon o ofal. Yn ogystal, nid oedd yn nodi pwy sy'n gyfrifol am ddychwelyd y claf i ambiwlans ar ôl iddo fynd i'r toiled, yn ystod y cyfnod pan fydd claf yn aros am ofod clinigol yn yr Uned Achosion Brys.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r bwrdd iechyd wneud y canlynol:

- Sicrhau bod canlyniadau hapwiriadau ac archwiliadau ar gael i bob aelod o staff yr uned
- Sicrhau y caiff y protocol ar y cyd ar gyfer cleifion sy'n dod i'r Uned Achosion Brys mewn ambiwlans ei adolygu er mwyn sicrhau eglurder o ran pwy sy'n gyfrifol am y cleifion.

### Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Mae gan yr Uned Achosion Brys adnodd adborth sy'n olrhain lefelau boddhad a gofnodir gan gleifion ac ymwelwyr yn ystod eu hymweliad. Rhoddodd yr uwch-reolwyr adroddiad o'r enw 'How was your visit today?' i ni. Roedd yr adroddiad

hwn yn darparu crynodeb o adborth gan 334 o ymatebwyr a ddaeth i'r adran achosion brys rhwng 17 Chwefror 2020 a 23 Chwefror 2020. Roedd 50 y cant o'r ymatebwyr yn fodlon â'u hymweliad, ond nododd 33 y cant eu bod yn anfodlon. Ni chawsom wybodaeth a oedd yn nodi pam bod yr ymatebwyr yn anfodlon, nac yn nodi'r camau gweithredu a gymerwyd gan yr adran i ymdrin â'r materion a gododd.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r bwrdd iechyd wneud y canlynol:

- Sicrhau y rhoddir ystyriaeth i ganlyniadau'r archwiliad 'How was your visit', ac y cymerir camau fel y bo'n briodol.

### Cadw cofnodion

Mae ein canfyddiadau mewn perthynas â chadw cofnodion wedi'u disgrifio mewn adrannau gwahanol drwy'r adroddiad. Gwnaethom edrych ar amrywiaeth o adnoddau asesu, rhestrau gwirio, siartiau monitro, cynlluniau gofal a gwerthusiadau o ofal ar gyfer y staff nyrsio a meddygol a staff gofal iechyd eraill. Ar y cyfan, gwelsom fod dogfennaeth wedi gwella yn ystod yr arolygiad hwn, er y byddem yn cynghori'r bwrdd iechyd i archwilio cofnodion gofal cleifion yn barhaus er mwyn ymdrin ag unrhyw ddiffygion mewn safonau.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.*

Gwelsom dystiolaeth o gefnogaeth a gwaith tîm da ymhlith y timau nyrsio a'r timau meddygol yn y ddwy uned. Roedd y staff a gwblhaodd holiaduron AGIC a'r rhai y cawsom sgwrs â nhw yn gadarnhaol ar y cyfan am eu rheolwyr a'u huwch-reolwyr.

Roedd yn bleser gennym nodi hefyd bod staff yr uned, uwch-nyrsys/rheolwyr ac uwch-reolwyr eraill y bwrdd iechyd wedi gweithio'n galed yn ystod y 12 mis diwethaf, ac y gwnaed cynnydd a gwelliannau sylweddol yn y ddwy uned.

Dyweddodd y rhan fwyaf o'r staff wrthym fod yr unedau yn amgylchedd da i weithio ynddynt, eu bod yn teimlo eu bod yn aelodau pwysig o'r tîm a bod eu barn yn bwysig. Yn ogystal, byddent yn argymhell y sefydliad fel lle i weithio.

Gwelsom dystiolaeth fod y cyflenwad staffio ym mhob rhan o'r unedau yn llawn, o ganlyniad i broses recriwtio barhaus ar gyfer nyrsys cofrestredig, cynorthwywyr gofal iechyd a staff meddygol. Roedd hyn yn welliant sylweddol o gymharu â'n canfyddiad ym mis Mawrth 2019. Fodd bynnag, nodwyd rhai problemau staffio gennym yn yr Uned Achosion Brys bediatrig.

### **Y gwelliannau yr oedd eu hangen yn ystod yr arolygiad diwethaf**

Roedd y meysydd i'w gwella a nodwyd gennym yn yr arolygiad diwethaf yn cynnwys y canlynol:

- Sicrhau bod y problemau a nodwyd o ran morâl isel a chymhelliant yn cael eu hystyried a'u hunioni

- Sicrhau yr eir i'r afael â sgoriau isel yn yr archwiliadau gofal misol er mwyn sicrhau gwelliant
- Sicrhau bod staff yn mynd i gyfarfodydd ward yn rheolaidd
- Sicrhau bod ymchwiliadau yn cael eu cynnal i wallau, achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd neu ddigwyddiadau a allai fod wedi achosi anaf i'r staff neu'r cleifion a'r rhesymau pam bod rhai aelodau o'r staff o'r farn y byddai'r sefydliad yn beio neu'n cosbi'r bobl sy'n rhan o ddigwyddiadau o'r fath
- Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael gwybodaeth am y Safonau Iechyd a Gofal diwygiedig a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2015
- Sicrhau bod cynllun cadarn ar gyfer recriwtio ar waith er mwyn cydymffurfio â Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 gan gynnwys defnyddio staff dros dro
- Sicrhau y cynhelir gwaith monitro ac archwilio ar gyfradd lenwi sifftiau yn erbyn y lefelau staffio cynyddol yr ymrwymir iddynt ar gyfer lolfar Uned Asesu
- Sicrhau y rhoddir ystyriaeth i gwblhau arolwg boddhad staff cyfredol, gan gynnwys yr Uned Achosion Brys, yr Uned Asesu a'r Uned Asesu yn Ysbyty Llandochoau
- Sicrhau bod proses gadarn ar waith er mwyn gwneud yn siŵr bod pob aelod o'r staff yn cael cyfle i gael arfarniad blynyddol personol ffurfiol.

### **Pa gamau gweithredu y dywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd:**

- Sicrhau bod nifer o fentrau ar waith er mwyn cefnogi llesiant a morâl staff a bod hyrwyddwyr llesiant ar waith ym mhob rhan o'r adran
- Cadw tudalen Facebook gaeedig er mwyn cyfathrebu ag aelodau o'r staff a chynnig bwrdd cyfathrebu â gwybodaeth gyfredol
- Bydd y Bwrdd Clinigol yn cerdded o amgylch yr adran yn rheolaidd
- Caiff canlyniadau archwiliadau monitro iechyd a gofal bellach eu cyflwyno drwy gyfarfodydd Ansawdd a Diogelwch yr Adran
- Rhoddir cyfle i'r staff fynd i ddiwrnodau cwrdd i ffwrdd misol i nyrsys a chaiff y cofnodion eu dosbarthu i bob aelod o'r staff

- Rhoddir gwybod i reolwr am bob digwyddiad Datix a chaiff adborth ei anfon at y sawl a roddodd wybod am y digwyddiad mewn perthynas â'r camau gweithredu a gymerwyd. Cynhelir adolygiad o'r holl ddigwyddiadau a gofnodir er mwyn sicrhau yr ymchwiliir/ymchwiliwyd i bob un yn briodol
- Mae'r Pennaeth Diogelwch Cleifion a nyrs arwain yr Uned Achosion Brys/Uned Asesu yn cwrdd i drafod llywodraethu, strwythur a phroses yn yr Uned Achosion Brys er mwyn rhoi cynllun ar waith i atgyfnerthu systemau presennol a mynd i'r afael ag unrhyw faterion a godir gan y staff
- Bydd y Tîm Diogelwch Cleifion yn cynnal sesiwn wedi'i theilwra'n benodol i staff a fydd yn ymdrin ag egwyddorion diogelwch cleifion sylfaenol, y trefniadau ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau, ymchwilio a rheoli, diwylliant diogelwch a diwylliant teg a chyfiawn, safonau iechyd a gofal/Datganiad Ansawdd Blynyddol, y fframwaith ansawdd, diogelwch a gwella ac archwilio clinigol
- Mae proses 'Safety Valve' y Bwrdd Iechyd Prifysgol ar waith er mwyn cefnogi galluogi staff i godi pryderon yn gyfrinachol yn uniongyrchol i Gadeirydd y bwrdd iechyd
- Adolygir a chytunir ar nifer y nyrsys gan y cyfarwyddwr nyrsio gweithredol bob chwe mis. Caiff achosion o fethu â bodloni lefelau staffio y cytunwyd arnynt eu hamlygu i'r dirprwy gyfarwyddwr nyrsio gweithredol bob dydd
- Adroddir ar gyfraddau llenwi banc ac asiantaeth drwy'r adolygiadau perfformiad misol a chaiff risgiau eu hamlygu
- Cynhelir Arolwg Pwls o fewn deufis
- Amlygwyd y broses o gwblhau Adolygiadau Arfarnu a Datblygu Perfformiad erbyn band saith fel blaenoriaeth a chaiff ei monitro drwy'r adolygiadau perfformiad unigol ac yn ystod cyfarfodydd ag unigolion bob mis
- Bydd y Bwrdd Iechyd Prifysgol yn paratoi crynodeb o'r gwersi a ddysgwyd ac yn datblygu adnodd sicrwydd ar gyfer meysydd eraill yn y Bwrdd Iechyd Prifysgol er mwyn sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu a'u rhoi ar waith yn eang.

## **Yr hyn a welsom yn ystod yr ymweliad dilynol**

Roeddem yn falch gweld bod y bwrdd iechyd wedi cyflwyno'r rhan fwyaf o'r gwelliannau a restrwyd yn ei gynllun gweithredu ar ôl yr arolygiad diwethaf ac wedi parhau i'w gweithredu, mewn perthynas ag ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth. Fodd bynnag, roedd angen gwella rhai meysydd ymhellach, a nodir y meysydd hyn yn fanylach isod.

## Canfyddiadau ychwanegol

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Roedd strwythur rheoli ar waith a disgrifiodd yr uwch-aelodau o'r staff linellau adrodd clir i dîm rheoli ehangach y bwrdd iechyd. Disgrifiwyd rolau, cyfrifoldebau a llinellau atebolrwydd hefyd.

Yn ystod yr arolygiad, dosbarthwyd holiaduron AGIC gennym i'r staff er mwyn cael eu barn ar amodau gwaith a safon y gofal yn eu hadran. Derbyniwyd 20 o holiaduron wedi'u cwblhau gan amrywiaeth o staff. Dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr eu bod wedi bod yn eu swydd bresennol ers mwy na thair blynedd.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno bod eu rheolwr uniongyrchol a'r sefydliad yn dangos diddordeb cadarnhaol yn eu hiechyd a'u lles, er bod rhai yn anghytuno. Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff eu bod wedi cael cynnig cefnogaeth lawn yn ystod sefyllfaoedd heriol, ond roedd dau yn anghytuno. Nododd y staff:

*"Uwch-nyrsys a nyrs arwain ardderchog"*

*"Rydym wedi cael cefnogaeth dda iawn gan Uwch-reolwyr y Gyfarwyddiaeth"*

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw a'r rheini a gwblhaodd holiadur fod y sefydliad a'u rheolwr llinell yn annog gwaith tîm, a gwnaethant gytuno fod eu rheolwr yn rhoi adborth ac yn gofyn eu barn cyn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu gwaith. Dywedodd y staff hefyd fod y sefydliad yn gefnogol, a bod y gweithwyr proffesiynol rheng flaen sy'n ymdrin â'r cleifion yn cael eu grymuso i ddweud a gweithredu pan fydd materion yn codi, yn unol â gofynion eu hymddygiad a'u cymhwysedd proffesiynol eu hunain, er i rai nodi:

*"Nid wyf yn argyhoeddedig bod y sefydliad yn fy nghefnogi"*

*"Rwy'n gwybod sut i uwchgyfeirio pryderon, ond ni chaiff unrhyw beth ei wneud am y pryderon hynny. Rydym yn aml yn gweithio hyd eithaf ein capasiti neu'n agos ato, ac ystyrir bod hynny'n dderbyniol"*

Dywedodd y rhan fwyaf o'r bobl a ymatebodd i'r holiadur fod digon o staff yn y sefydliad fel arfer i'w galluogi i wneud eu gwaith yn briodol, a nododd lleiafrif mai dim ond weithiau yr oedd digon o staff neu nad oedd byth ddigon o staff yn y sefydliad i'w galluogi i wneud eu gwaith yn briodol. Fodd bynnag, yn ystod yr arolygiad hwn, gwnaethom ganfod dystiolaeth o welliannau sylweddol wrth recriwtio a chadw staff.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr eu bod yn fodlon ag ansawdd y gofal yr oeddent yn gallu ei roi i'r cleifion, ac mai gofal cleifion yw prif flaenoriaeth y sefydliad. Yn ogystal, gwnaethant nodi bod preifatrwydd ac urddas y cleifion yn cael eu cynnal, a bod annibyniaeth y cleifion yn cael ei hyrwyddo, a bod y sefydliad yn gweithredu ar bryderon a gaiff eu codi gan y cleifion.

Roedd gan yr unedau amserlen hyfforddiant sy'n amlinellu'r gofynion hyfforddi gorfodol, hanfodol a dymunol ar gyfer staff o fand dau hyd at fand saith. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw a'r rhai a ymatebodd i'r holiadur eu bod wedi ymgymryd â gweithgareddau dysgu a datblygu ym maes iechyd a diogelwch, diogelwch tân, rheoli heintiau, y Ddeddf Galluedd Meddyliol, trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid, gofal i bobl hŷn a dementia. Gwnaethant nodi hefyd fod gweithgareddau hyfforddi a datblygu yn eu helpu i wneud eu gwaith yn fwy effeithiol, a dywedodd y rhan fwyaf ohonynt ei fod yn eu helpu i gael y wybodaeth ddiweddaraf am ofynion proffesiynol, ac yn sicrhau eu bod yn darparu profiad gwell i gleifion. Fodd bynnag, nododd y wybodaeth am gydymffurfio â hyfforddiant a gofnodwyd ar y Cofnod Staff Electronig (ESR) mai dim ond 68% o'r hyfforddiant gorfodol a gwblhawyd.

Dywedodd y nyrsys cofrestredig a oedd newydd gymhwyso yn yr Uned Asesu wrthym eu bod wedi llwyddo i gwblhau eu hyfforddiant gorfodol a mathau eraill o hyfforddiant yn ystod mis cyntaf eu rhaglen sefydlu.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr wrthym eu bod wedi cael arfarniad datblygu personol yn ystod y 12 mis diwethaf, er bod y Cofnod Staff Electronig yn dangos mai dim ond 50% o'r staff a oedd wedi cael arfarniad. Mae'n bosibl yr hoffai'r bwrdd iechyd ystyried trefniadau i sicrhau bod cofnodion adrannol a chofnodion y Cofnod Staff Electronig yn gyson er mwyn sicrhau eglurder.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr eu bod yn ymwybodol o'r cymorth Iechyd Galwedigaethol sydd ar gael iddynt, a nododd un aelod o'r staff hefyd:

*"Mae gennym arweinydd llesiant newydd ardderchog yn yr adran"*

Nododd hanner y staff a gwblhaodd holiadur fod eu patrwm gwaith yn caniatáu cydbwysedd bywyd-gwaith da, er bod gweddill y staff yn anghytuno â hynny. Nododd un aelod o'r staff:

*“mae'r patrwm sifftiau sporadig yn cael effaith wael ar iechyd”*

Dyweddodd fwy neu lai pob un o'r ymatebwyr fod eu sefydliad yn gweithredu'n deg o safbwynt camu ymlaen yn eich gyrfa neu gael dyrchafiad, ac nad oedd unrhyw wahaniaethu ar sail cefndir ethnig, rhywedd, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, anabled nac oedran.

Dyweddodd y staff a oedd yn gweithio yn yr Uned Asesu wrthym hefyd fod yr uned yn amgylchedd da iawn i weithio ynddo, eu bod yn teimlo eu bod yn aelodau pwysig o'r tîm a bod eu barn yn bwysig. Dywedodd y staff wrthym hefyd eu bod yn teimlo'n gyfforddus yn rhoi gwybod am feysydd o bryder. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r holiadur hefyd yn cytuno y byddent yn argymhell y sefydliad fel lle i weithio ynddo, er bod rhai yn anghytuno. Fodd bynnag, roedd yn amlwg i'r tîm arolygu ac o'r trafodaethau gyda llawer o'r staff yn ystod ein harolygiad bod morâl a chymhelliant wedi gwella'n sylweddol ers ein harolygiad ym Mawrth 2019.

Roedd yr Uned Achosion Brys wedi cwblhau arolwg Pwls<sup>12</sup> a gynlluniwyd i annog y staff i roi adborth ar foddhad swydd, cyfathrebu, cydberthnasau a'r amgylchedd gwaith. Casglwyd y data ym mis Rhagfyr 2019 a chyflwynwyd adroddiad ym mis Ionawr 2020. Cafwyd cyfradd ymateb o 60 y cant, ac ar y cyfan, roedd y canlyniadau yn gadarnhaol, ond roedd rhai agweddau negyddol. Byddem yn cynghori'r bwrdd iechyd i ystyried canlyniadau'r arolwg ac ymdrin ag unrhyw faterion sy'n codi.

Gwelsom fod canlyniadau archwilio yn llawer gwell na'r canlyniadau yn ystod ein harolygiad blaenorol. Disgrifiwyd y trefniadau ar gyfer rhoi gwybod am ganfyddiadau archwiliadau a monitro cynlluniau gwella fel rhan o drefniadau llywodraethu'r bwrdd iechyd. Gwelsom hefyd gofnodion rhai cyfarfodydd staff lle roedd canfyddiadau gweithgarwch archwilio yn cael eu rhannu gyda'r nod o wneud gwelliannau fel y bo'n briodol ar y ddwy uned. Yn ogystal, roedd cynlluniau

---

<sup>12</sup> Arolwg byr a ddefnyddir i ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol am foddhad a lefelau ymgysylltu cyflogeion yw arolwg Pwls.

i arddangos canlyniadau archwiliadau yn yr ystafell staff newydd unwaith y byddai'r ystafell hon yn gwbl weithredol.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r bwrdd iechyd wneud y canlynol:

- Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant gorfodol a bod canlyniadau ar y Cofnod Staff Electronig yn adlewyrchu'r canlyniadau a nodir yn yr adran
- Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael arfarniad blynyddol cyfredol, ac y caiff ei gofnodi ar y Cofnod Staff Electronig
- Sicrhau ei fod yn ystyried y rhesymau pam bod aelodau o'r staff wedi mynegi pryderon yn holiaduron AGIC a'r arolwg Pwls.

## Staff ac adnoddau

### Y Gweithlu

Cawsom wybod fod swyddi wedi cael eu llenwi, a gwelsom dystiolaeth o hynny, a bod y rhan fwyaf o'r swyddi yn unol â'r argymhelliad yn ei gynllun gwella. Dim ond ychydig bach iawn o swyddi sy'n wag o hyd. Roedd yr adran wedi llwyddo i recriwtio ymgeiswyr allanol ac wedi cynnig cyfleoedd mewnol am ddyrchafiadau ym mandiau nyrsio pump, chwech a saith. Yn ogystal, roedd yr adran wedi llwyddo i recriwtio unigolion i bob swydd Cynorthwydd Gofal Iechyd. Ar adeg yr arolygiad, roedd nifer o'r recriwtiaid hyn yn aros i'r holl wiriadau cyn-cyflogaeth gael eu cwblhau cyn iddynt allu dechrau yn eu swydd. Cawsom dystiolaeth ddogfennol o'r cynnydd yn nifer y nyrsys gan y nyrs arwain dyddiedig Ionawr 2020.

Cawsom wybod gan y rheolwyr yn yr Uned Asesu eu bod wedi llwyddo i recriwtio unigolion i bob swydd uwch-staff-nyrs band chwech, a fyddai'n gweithio'n benodol yn yr Uned Asesu. Cawsom wybod hefyd fod nifer y staff yn lolfa'r Uned Asesu wedi cynyddu a bod nyrs gofrestrdig a chynorthwydd gofal iechyd

ychwanegol yno. Fodd bynnag, nid oedd y swyddi hyn yn rhan barhaol o'r cyflenwad, ac yn ystod cyfnodau o absenoldeb dirybudd, mae'n bosibl y cânt eu symud er mwyn cyflenwi ar gyfer swyddi nyrsio mewn rhannau eraill o'r adran. O dan yr amgylchiadau hyn, dywedodd yr uwch-reolwyr wrthym y byddai nifer y cleifion sy'n defnyddio lolfar Uned Asesu yn cael ei leihau, er mwyn cynnal cymarebau diogel rhwng y staff a'r nyrsys a'r cleifion. Fodd bynnag, byddai hyn yn debygol o effeithio ar lif cleifion ar draws yr adran.

Dywedodd rheolwyr yr MEACU wrthym fod hysbyseb allanol wedi'i gosod er mwyn llenwi swydd nyrsio band chwech yn yr uned, yn ychwanegol at nifer y nyrsys yn dilyn ein harolygiad diwethaf.

Dywedodd uwch-nyrsys yr Uned Achosion Brys wrthym fod cyflenwad llawn o nyrsys band pump yno bellach, ac ar ôl cwblhau'r gwiriadau cyn-cyflogaeth, y byddai cyflenwad llawn o nyrsys band chwech hefyd. Roeddent wedi llwyddo i recriwtio un nyrs band saith a fyddai'n dychwelyd o gyfnod mamolaeth, a dim ond un swydd band saith oedd ar ôl i'w llenwi. Roedd yr adran hefyd yn paratou hysbyseb allanol ar gyfer ymarferydd nyrsio brys band chwech ychwanegol.

Cawsom wybod gan y staff a oedd yn gweithio yn yr Uned Achosion Brys bediatrig mai dim ond dwy nyrs oedd ar y rota ar gyfer sifftiau nos, heb unrhyw gymorth gan gynorthwyydd gofal iechyd. Dywedwyd wrthym weithiau fod angen i'r nyrsys hebrwng cleifion drwy'r twneli i'r ysbyty Plant yn ystod y nos, gan olygu mai dim ond un nyrs a oedd ar ddyletswydd yn yr Uned Achosion Brys bediatrig, gan achosi risg bosibl i ofal cleifion a diogelwch. Cawsom wybod hefyd nad oedd nyrsys weithiau yn gallu cael cymorth gan wasanaethau porthor i drosglwyddo cleifion i'r ysbyty plant, felly bod y staff yn eu hebrwng ar eu pen eu hunain. Mynegodd y staff hefyd bryderon ei bod yn aml yn anodd trefnu meddygon ymgynghorol priodol ar gyfer yr Uned Achosion Brys bediatrig, ond dywedodd yr uwch-reolwyr wrthym fod meddyg ymgynghorol ychwanegol newydd gael ei recriwtio ar gyfer yr Uned Achosion Brys bediatrig.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r bwrdd iechyd wneud y canlynol:

- Sicrhau y caiff nifer y nyrsys yn yr Uned Achosion Brys bediatrig ei adolygu er mwyn cynnig gofal digonol a sicrhau diogelwch cleifion

## 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgwyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 5. Sut rydym yn cynnal arolygiadau dilynol

Gall arolygiadau dilynol fod yn arolygiadau lle rhoddwyd rhybudd neu'n rhai dirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Diben ein harolygiadau dilynol yw gweld pa welliannau a wnaed gan y gwasanaeth ers ein harolygiad diwethaf.

Bydd ein harolygiadau dilynol yn canolbwyntio ar y meysydd penodol ar gyfer gwella a nodwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf. Mae hyn yn golygu mai dim ond ar [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#) sy'n berthnasol i'r meysydd hyn y byddwn yn canolbwyntio.

Yn ystod ein harolygiadau dilynol byddwn yn ystyried agweddau perthnasol ar y canlynol:

- Ansawdd profiad y claf
- Darparu gofal diogel ac effeithiol
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol. Byddwn hefyd yn tynnu sylw at unrhyw feysydd lle mae angen gwneud gwelliannau o hyd.

Ceir manylion pellach am [sut mae AGIC yn arolygu'r GIG](#) ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni chafodd unrhyw bryderon uniongyrchol eu datrys yn ystod yr arolygiad			

## Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

### Gwasanaeth: Uned Achosion Brys ac Uned Asesu Ysbyty Athrofaol Cymru

#### Dyddiad arolygu: 10 ac 11 Mawrth 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd i sicrhau bod system ar waith er mwyn gwneud yn siŵr bod gan bob claf fand adnabod er mwyn sicrhau y gall staff adnabod cleifion yn gywir a rhoi'r gofal cywir iddynt.</p> <p>Gwelsom chwe chlaf yn ardal lolfa'r Uned Asesu nad oeddent yn gwisgo bandiau adnabod cleifion ar eu harddwrn. Roedd dau o'r cleifion yn cael meddyginiaeth fewnwythiennol. Gall diffyg band adnabod ar arddwrn claf arwain at achos o gamadnabod a chyfaddawdu gofal cleifion a diogelwch.</p>	Safon 2.1, 2.6, 2.7, 3.1	<p>Roedd y camau gweithredu a gymerwyd ar unwaith ar 11 Mawrth 2020 i unioni'r diffyg bandiau adnabod ar gleifion yr oedd angen hylifau mewnwythiennol arnynt yn y lolfa yn cynnwys y canlynol:</p> <p>Cynhaliodd uwch-nyrs LW arolygiad pellach er mwyn sicrhau bod y camau wedi'u cymryd.</p> <p>Atgoffwyd yr aelod o'r staff a oedd yn gofalu am y claf o bwysigrwydd Polisi Adnabod BIP Caerdydd a'r Fro 2012</p>	<p>Uwch-nyrs</p> <p>Y Gyfarwyddiaeth Meddygaeth Frys ac Aciwt</p>	<p>Cwblhawyd 11/3/2020</p> <p>Cwblhawyd 11/3/2020</p> <p>Cwblhawyd 11/3/2020</p>

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>a Chod Meddyginiaethau BIP Caerdydd a'r Fro 2019.</p> <p>Anfonwyd gohebiaeth dros e-bost a Facebook at bob aelod o'r staff i'w hatgoffa o'i gyfrifoldeb proffesiynol dros ddiogelwch cleifion mewn perthynas â Pholisi Adnabod BIP Caerdydd a'r Fro 2012 a Chod Meddyginiaethau BIP Caerdydd a'r Fro 2019</p> <p>Cynnal fforwm ffocws bob pythefnos, gan ddarparu gwybodaeth ym mhob sesiwn briffio diogelwch am 07:00 o'r gloch a 19:00 o'r gloch i staff yn yr Uned Achosion Brys, yr Uned Asesu a'r Uned Achosion Brys Bediatrig</p> <p>Pob nyrs â chyfrifoldeb ar sifftiau dydd a nos yn yr Uned Achosion Brys, yr Uned Asesu a'r Uned Achosion Brys Bediatrig i sicrhau y caiff Polisi Adnabod BIP Caerdydd</p>	<p>Uwch-nyrs</p> <p>Y Gyfarwyddiaeth Meddygaeth Frys ac Acíwt</p> <p>Yr Uned Achosion Brys - Prif Nyrs</p> <p>Yr Uned Asesu - Prif Nyrs</p>	<p>Cwblhawyd 17/3/2020</p> <p>I ddechrau ar 23/3/2020</p> <p>Cyfrifoldeb dyddiol</p>

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>a'r Fro a Chod Meddyginiaethau BIP Caerdydd a'r Fro 2019 eu dilyn – Dylid cymryd camau gweithredu ar unwaith os nodir achosion o fynd yn groes i'r polisi</p> <p>Hapwiriadau wythnosol gan yr Uwch-nyrns er mwyn sicrhau bod Polisi Adnabod BIP Caerdydd a'r Fro a Chod Meddyginiaethau BIP Caerdydd a'r Fro 2019 yn cael eu dilyn – Dylid cymryd camau gweithredu ar unwaith os nodir achosion o fynd yn groes i'r polisi</p> <p>Lefel gydymffurfiaeth gweithlu nyrsio'r Gyfarwyddiaeth Meddygaeth Frys ac Acíwt ar gyfer hyfforddiant rheoli meddyginiaethau ar hyn o bryd yw 98%. Mae angen hyfforddi tri aelod o'r staff ac mae hyfforddiant wedi'i drefnu ar eu cyfer ar gyfer y dyfodol.</p>	<p>Nyrns chyfrifoldeb â</p> <p>Uwch-nyrsys</p> <p>Tîm addysg y Gyfarwyddiaeth Meddygaeth Frys ac Acíwt</p>	<p>Cyfrifoldeb wythnosol</p> <p>Cwblhawyd 17/3/2002</p> <p>Ailgymeradwyo Mehefin 2020</p>

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Mae Polisi Adnabod Cadarnhaol y BIP wrthi'n cael ei adolygu ar hyn o bryd.	Pennaeth Diogelwch Cleifion Ansawdd ac	

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (priflythrennau):** Rebecca Aylward

**Teitl swydd:** Cyfarwyddwr Nyrsio

**Dyddiad:** 2 Gorffennaf 2020

## Atodiad C – Cynllun gwella

### Gwasanaeth: Uned Achosion Brys ac Uned Asesu Ysbyty Athrofaol Cymru

#### Dyddiad arolygu: 10 ac 11 Mawrth 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd profiad y claf</b>				
<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn gwneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>Sicrhau bod y staff yn cau drws yr ystafell brysbennu er mwyn diogelu urddas, preifatrwydd a chyfrinachedd cleifion</li></ul>	4.1 Gofal ag Urddas	<p>Ar adeg yr arolygiad, atgoffwyd y staff o'u cyfrifoldeb i gau drws yr ystafell brysbennu er mwyn cynnal preifatrwydd, cyfrinachedd ac urddas cleifion. Tynnodd arolygiad blaenorol gan AGIC sylw at faterion diogelwch yn yr ystafell brysbennu ac mae drws dianc bellach ar gael er mwyn i'r staff allu dod allan o'r ystafell mewn argyfwng.</p> <p>Oherwydd Covid-19, nid yw'r ystafell brysbennu bresennol yn cael ei defnyddio ac mae'r ardal hon bellach ar gau i'r cyhoedd. Mae'r brif ystafell aros</p>	Uwch-nyrs LW	Gorffennaf 2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau bod cyfleusterau ar gael yn yr uned mân anafiadau er mwyn caniatáu i'r staff a chleifion gael sgwrs gyfrinachol</li> </ul>		<p>a'r ardal triniaethau dydd yn darparu gofal i gleifion triniaethau dydd Porffor (cleifion lle yr amheuir achos o Covid-19) yn unig. Dim ond os bydd y nifer yn yr ardal triniaethau dydd yn cynyddu a bod oedi wrth brosesu cleifion o fewn 15 munud i'r adeg y byddant yn cyrraedd y defnyddir y brif ystafell brysbennu. O dan yr amgylchiadau hyn, defnyddir yr ystafell brysbennu i asesu cleifion gan ddefnyddio adnodd brysbennu Manceinion. Er mwyn atgoffa'r staff i gau'r drws, caiff poster ei arddangos yn yr ystafell brysbennu.</p> <p>Cyn yr achosion o Covid-19, roedd ystafelloedd ar gael yn yr ardal mân anafiadau a'r ardal triniaethau brys a oedd wedi'u cyd-leoli er mwyn sicrhau cyfleoedd i'r staff siarad â chleifion yn gyfrinachol. Pan fydd yr ystafelloedd hyn yn cael eu defnyddio oherwydd gofynion capasiti, bydd y staff yn cydgysylltu â'r Nyrs â Chyfrifoldeb er mwyn darparu cyfleusterau amgen. Ar adeg yr arolygiad, roedd ail ardal mân</p>	<p>Uwch-dîm y Gyfarwyddiaeth Meddygaeth Frys ac Acíwt – Nyrs Arwain WP</p>	<p>Cwblhawyd Ebrill 2020</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau y gwneir trefniadau i addurno'r ystafell brofedigaeth.</li> </ul>		<p>anafiadau wrthi'n cael ei hadeiladu; mae'r ardal hon bellach wedi'i chwblhau, gan gynnig ardal bellach i gynnal sgysiau cyfrinachol.</p> <p>Oherwydd Covid-19, mae ôl troed y Gyfarwyddiaeth Meddygaeth Frys ac Acíwt (EAMD) wedi newid. Mae'r uned mân anafiadau bellach wedi'i lleoli yn yr Uned Achosion Brys Bediatrig. Mae'r ardal yn cynnwys pedwar ciwbicl unigol a dwy ystafell breifat er mwyn hwyluso cyfrinachedd. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw amserlen o ran darparu gwybodaeth am y trefniadau ar gyfer dychwelyd yr Uned Mân Anafiadau i'w lleoliad gwreiddiol.</p> <p>Oherwydd Covid-19, mae'n bosibl y bydd ôl troed y Gyfarwyddiaeth Meddygaeth Frys ac Acíwt yn newid mewn ffordd hyblyg er mwyn cefnogi'r cynnydd sydyn yn nifer yr unigolion a fydd o bosibl yn dod i'r uned</p>	<p>LW Uwch-nyrs</p>	<p>Caiff ei adolygu bob 3 mis</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Gohiriwyd y cynlluniau cychwynnol i ailaddurno'r ddwy ystafell i berthnasau oherwydd pandemig Covid-19.</p> <p>Mae un o'r ystafelloedd i berthnasau wrth ymyl yr ardal dadebru bellach yn cael ei defnyddio fel ardal gwisgo lân ar gyfer cyfarpar diogelu personol (PPE).</p> <p>Mae ail ystafell i berthnasau yn cael ei defnyddio o hyd ar gyfer perthnasau. Fodd bynnag, oherwydd pandemig Covid-19, ni chaiff perthnasau ddod i mewn i ysbytai BIP Caerdydd a'r Fro. Bydd y nyrs a'r meddyg ymgynghorol â chyfrifoldeb dros yr Uned Achosion Brys a'r Uned Asesu yn defnyddio disgrisiwn o dan amgylchiadau eithriadol, er enghraifft, diwedd oes.</p> <p>Bydd y perthnasau yn mynd yn syth at erchwyn gwely'r claf ac ni chânt eu hannog i ddefnyddio'r ystafell.</p> <p>Er mwyn paratoi ar gyfer ailaddurno'r ystafell i berthnasau, gofynnir am ddyfynbrisiau gan yr adran ystadau er</p>		Gorffennaf 2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>mwyn gallu dechrau ar y gwaith unwaith y caiff y cyfyngiadau eu llacio ac y caniateir i gontractwyr ddod i mewn i'r Uned Achosion Brys.</p>		
<ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau y caiff cleifion yr opsiwn i gyfathrebu yn eu dewis iaith.</li> </ul>	3.2 Cyfathrebu'n effeithiol	<p>Mae amrywiaeth o gardiau gwybodaeth Cymraeg bellach ar gael yn yr ardal mân anafiadau.</p> <p>Mae Language Line a gwasanaethau cyfieithu eisoes ar gael o fewn BIP Caerdydd a'r Fro. Maent ar gael i bob aelod o'r staff a phob arbenigedd.</p> <p>Caiff arwyddion eu datblygu ar y cyd ag adnoddau i'r cyfryngau yn nodi bod cardiau gwybodaeth Cymraeg ar gael, ac er mwyn rhoi gwybod i gleifion bod gwasanaethau dehongli ar gael er mwyn helpu'r cleifion i gyfathrebu yn eu dewis iaith</p>	<p>LW – Uwch-nyrs</p> <p>Cyfrifoldeb corfforaethol</p> <p>LW – Uwch-nyrs</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Medi 2020</p>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau y caiff y cleifion eu hasesu ac y rhoddir y cysur angenrheidiol iddynt os byddant yn aros am gyfnodau hir yn yr adran achosion brys.</li> </ul>	5.1 Mynediad amserol	<p>Nododd un o arolygiadau blaenorol AGIC fod cysur yn fater i'w ystyried i gleifion yn Lolfa'r Uned Asesu. Er mwyn</p>	<p>Uwch-dîm y Gyfarwyddiaeth Meddygaeth Frys ac Acíwt</p>	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>ymateb i hyn, prynwyd 10 cadair ogwyddol er mwyn darparu cysur.</p> <p>Rydym yn ceisio sicrhau y caiff y cleifion eu symud drwy'r uned mewn modd amserol. Fodd bynnag, os bydd cleifion yn aros dros 12 awr mewn cadeiriau, caiff y mater ei uwchgyfeirio drwy e-bost i'r byrddau clinigol perthnasol. Caiff pob claf ei drafod yn y sgrymiau adrannol a gynhelir bob 2 awr a'i uwchgyfeirio i'r Tîm Mynediad Cleifion. Tynnir sylw at y cleifion hyn hefyd yng nghyfarfodydd gweithredol canolfan reoli leol y BIP a gynhelir 4 gwaith y dydd ac a gaiff eu cadeirio gan Dimau Triwriaeth y Byrddau Clinigol.</p> <p>Er mwyn lleihau amseroedd aros i gleifion a hyrwyddo'r llif yn y ffrwd Meddygaeth Frys ac Acíwt, mae'r gyfarwyddiaeth yn gweithio'n barhaus â'r adrannau gofal sylfaenol gan ddefnyddio Fframwaith Cyflawni Ansawdd yr Adran Achosion Brys.</p>	<p>Arweinydd Fframwaith Cyflawni Ansawdd yr Adran Achosion Brys</p> <p>Arweinydd Fframwaith Cyflawni Ansawdd</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Awst 2020</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Er enghraifft, mae “<b>Consultant Connects</b>” yn cynnig llinell uniongyrchol i feddygon teulu gysylltu â meddyg aciwt er mwyn trafod cyflwr ac anghenion y claf. Dechreuodd hyn ym mis Mehefin 2020 ac mae'n helpu i ffrydio cleifion i'r gwasanaeth mwyaf priodol, a thrwy hynny leihau'r angen i ddefnyddio gwasanaethau gofal brys.</p> <p>Yn ail, caiff <b>CAV 24/7</b> ei lansio ym mis Awst 2020 sy'n cynnig model gofal "ffonio'n gyntaf" ac yn anelu at ailgyfeirio cleifion yn briodol.</p>	<p>yr Adran Achosion Brys</p> <p>Arweinydd Fframwaith Cyflawni Ansawdd yr Adran Achosion Brys</p> <p>Arweinydd Fframwaith</p>	<p>Cwblhawyd Mehefin 2020</p> <p>Awst 2020</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			Cyflawni Ansawdd yr Adran Achosion Brys	
<b>Darparu gofal diogel ac effeithiol</b>				
<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn gwneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau y caiff yr eitemau sydd wedi'u storio yn y coridorau rhwng yr Uned Asesu a MEACU ac sy'n achosi perygl baglu eu storio'n briodol</li> <li>Sicrhau y caiff dodrefn sydd wedi'i ddifrodi ei symud, gan osod dodrefn newydd yn ei le</li> </ul>	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	<p>Caiff y coridor ei glirio'n brydlon bob dydd ar ôl derbyn nwyddau. Atgoffwyd staff y storfa o'u cyfrifoldeb o ran iechyd a diogelwch i osgoi peryglon baglu.</p> <p>Lle na ellir storio stoc yn briodol, caiff yr achos ei uwchgyfeirio i'r Gyfarwyddiaeth Meddygaeth Frys ac Aciwt.</p> <p>Mae'r weithdrefn arferol ar gyfer rhoi gwybod i'r Tîm Rheoli Gwastraff am wastraff i'w gasglu a'i waredu ar waith a gall gymryd hyd at 10 diwrnod gwaith.</p> <p>Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ddewis amgen er mwyn helpu i gael gwared ar wastraff o fewn y BIP. Caiff y broses o</p>	<p>Arweinydd Fframwaith Cyflawni Ansawdd yr Adran Achosion Brys</p> <p>Uwch-dîm y Gyfarwyddiaeth Meddygaeth Frys ac Aciwt yn unol â'r rota cyflenwi</p>	<p>Gorffennaf 2020</p> <p>Gorffennaf 2020</p> <p>Mae angen gwaith monitro ac uwchgyfeirio parhaus Cwblhawyd</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau y darperir loceri i'r staff i'w galluogi i storio bagiau a dillad yn briodol ac osgoi eu gosod ar y llawr</li> </ul>		<p>uwchgyfeirio achosion drwy'r adran ystadau ei rheoli drwy'r Gyfarwyddiaeth er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch. Mae'r BIP yn cydnabod bod gwastraff neu eitemau sgrap yn yr amgylchedd yn achosi perygl ac y gallant effeithio ar allu unigolion i gadw pellter corfforol diogel yn ystod pandemig Covid-19. Bellach gellir anfon e-bost yn uniongyrchol at y tîm gwaredu gwastraff.</p> <p>Caiff pob eitem o ddodrefn sy'n rhan o ôl troed y Gyfarwyddiaeth Meddygaeth Frys ac Acíwt ei hadolygu. Caiff eitemau sydd wedi'u difrodi eu symud, a gosodir eitemau newydd yn eu lle. Bydd yr uwch-nyrsys yn cynnal hapwiriadau bob wythnos. Caiff gwiriadau gwastraff eu cynnwys fel rhan o rolau a chyfrifoldebau dyddiol y Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd yn yr Uned Achosion Brys a'r Uned Asesu.</p> <p>Cynhelir adolygiad o'r holl loceri yn y Gyfarwyddiaeth Meddygaeth Frys ac</p>	<p>Cyfrifoldeb corfforaethol</p> <p>Uwch-dîm rheoli'r Gyfarwyddiaeth Meddygaeth Frys ac Acíwt</p>	<p>Gorffennaf 2020</p> <p>Hydref 2020</p>



Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau y darperir y diffoddwyr tân priodol yn yr uned achosion brys bediatrig</li> <li>Sicrhau y cynhelir gwiriadau rheolaidd er mwyn gwneud yn siŵr bod drysau'r uned achosion brys bediatrig wedi'u cloi er mwyn sicrhau diogelwch y plant.</li> </ul>		<p>gellir gwella'r sefyllfa. Ni ellir adleoli'r biniau gwastraff gan eu bod yn cael eu cludo yma'n barod i fynd i'r iard wastraff, ond cynhelir gwiriadau er mwyn sicrhau nad ydynt yn achosi perygl baglu.</p> <p>Cynhelir adolygiad o'r holl ddiffoddwyr tân sy'n rhan o ôl troed y Gyfarwyddiaeth Meddygaeth Frys ac Aciwt ar y cyd â'r swyddog tân er mwyn sicrhau eu bod yn y lleoliadau cywir a'u bod yn cyrraedd y safonau gofynnol. Oherwydd yr achosion o Covid-19, mae'r Uned Achosion Brys bediatrig wedi cael ei hadleoli am y tro i Ysbyty Plant Cymru. Nid oes unrhyw gynlluniau hyd yn hyn iddi ddychwelyd i'w lleoliad gwreiddiol.</p> <p>Cyn yr achosion o Covid-19, atgoffwyd y staff o'u cyfrifoldeb i sicrhau diogelwch pob claf yn yr Uned Achosion Brys Bediatrig.</p>	<p>Arweinydd y Fframwaith Cyflawni Ansawdd yr Adran Achosion Brys ar y cyd â swyddog tân BIP Caerdydd a'r Fro</p> <p>Uwch-dîm rheoli'r Gyfarwyddiaeth Meddygaeth Frys ac Aciwt</p>	<p>Gorffennaf 2020</p> <p>Cwblhawyd</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Os bydd drysau yn methu neu wedi'u difrodi, caiff y mater ei uwchgyfeirio'n gynnar i'r adran ddiogelwch a gwneir ceisiadau cynnal a chadw.</p> <p>Ar hyn o bryd, mae'r Uned Mân Anafiadau wedi'i lleoli yn yr ardal hon ac nid oes angen cloi'r drysau.</p> <p>Pan gaiff yr Uned Achosion Brys Bediatrig ei dychwelyd i'w lleoliad gwreiddiol, caiff Gweithdrefn Weithredu Safonol ei datblygu er mwyn sicrhau diogelwch y drysau.</p> <p>Oherwydd Covid-19, mae'n bosibl y bydd ôl troed y Gyfarwyddiaeth Meddygaeth Frys ac Acíwt yn newid mewn ffordd hyblyg er mwyn cefnogi'r cynnydd sydyn posibl yn nifer yr unigolion sy'n dod i'r uned.</p>	LW – Uwch-nyrs	Adolygu bob 3 mis oherwydd Covid-19 a newidiadau i ôl troed y Gyfarwyddiaeth Meddygaeth Frys ac Acíwt
Sicrhau y caiff asesiadau cwympiadau eu cwblhau'n llawn ar gyfer pob claf yn yr Uned Achosion Brys sy'n aros i gael ei dderbyn i'r ysbyty.	2.3 Atal Cwympiadau	<p>Cynhelir addysg a hyfforddiant ar gwympiadau i bob aelod newydd o'r staff fel rhan o'r rhaglen sefydlu</p> <p>Atgoffwyd staff o'u cyfrifoldeb i gynnal asesiadau risg amserol ar gyfer</p>	Y Gyfarwyddiaeth Meddygaeth Frys ac Acíwt ar y cyd â'r tîm addysg	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>cwmpïadau. Cafodd y neges hon ei chyfleu drwy e-bost, drwy'r grŵp Facebook caeedig ac yn ystod y fforwm ffocws bob pythefnos.</p> <p>Mae'r fforwm ffocws bob pythefnos yn darparu gwybodaeth ym mhob sesiwn briffio diogelwch nyrsio am 07:00 o'r gloch a 19:00 o'r gloch i staff yn yr Uned Achosion Brys, yr Uned Asesu a'r Uned Achosion Brys Bediatrig. Pennwyd yr amserlen hon er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael y wybodaeth hyd yn oed yn ystod cyfnodau o wyliau blynyddol neu ddiwrnodau i ffwrdd.</p> <p>Bydd y nyrs â chyfrifoldeb yn cynnal haparchwiliadau rheolaidd ac yn atgoffa'r staff o'u cyfrifoldeb i gwblhau'r asesiadau risg ar gyfer cwmpïadau lle y caiff bylchau eu nodi.</p> <p>Caiff archwiliadau misol eu cynnal eisoes o safonau iechyd a gofal. Mae canlyniadau'r archwiliadau yn nodi bylchau o ran gwybodaeth y staff ac yn cael eu bwydo i gynllun addysg y</p>	<p>LW – Uwch-nyrs</p> <p>Uwch-dîm y Gyfarwyddiaeth Meddygaeth Frys ac Acíwt</p> <p>Y Gyfarwyddiaeth Meddygaeth Frys</p>	<p>Gorffennaf 2020</p> <p>Gwaith monitro parhaus</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Gyfarwyddiaeth Meddygaeth Frys ac Aciwt.</p> <p>Bydd yr uwch-nyrsys yn cynnal gwiriadau wythnosol er mwyn nodi bylchau mewn dogfennaeth ac yn helpu'r staff i gwblhau'r ddogfennaeth</p>	<p>ac Aciwt ar y cyd â'r Tîm Addysg</p> <p>Uwch-dîm Nyrsio'r Gyfarwyddiaeth Meddygaeth Frys ac Aciwt</p>	Awst 2020
Sicrhau y caiff cwpanau eu cyflenwi gan y peiriant er mwyn osgoi achosion o groes-heintio.	2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi	<p>Oherwydd pandemig Covid-19 a'r cynnydd mewn trefniadau goruchwyllo er mwyn rheoli heintiau, ni chaiff cwpanau eu cyflenwi ar hyn o bryd yn y Gyfarwyddiaeth Meddygaeth Frys ac Aciwt.</p> <p>Prynwyd poteli o ddŵr er mwyn annog cleifion i hydradu ac i sicrhau y gellir atal a rheoli heintiau. Caiff y broses hon ei hadolygu pan gaiff y cyfyngiadau eu llacio, er mwyn gallu cynnig dulliau hydradu gwahanol.</p>	Uwch-dîm Nyrsio'r Gyfarwyddiaeth Meddygaeth Frys ac Aciwt	Cwblhawyd
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn gwneud y canlynol:	2.5 Maeth a Hydradu	Oherwydd Covid-19, mae'r holl gynwysyddion a chwpanau wedi cael eu	LW – Uwch-nyrs	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau y caiff dŵr yfed ffres ei ddarparu'n rheolaidd yn yr Uned Achosion Brys a'r uned achosion brys bediatrig, ac y caiff cwpanau plastig eu storio'n briodol yn yr Uned Aseu</li> <li>Sicrhau y gosodir peiriant dŵr priodol yn yr uned achosion nrys bediatrig yn lle'r cynhwysydd dŵr annibynnol.</li> </ul>		<p>symud o'r ardal. Mae dŵr potel ar gael i'r cleifion.</p> <p>Symudwyd y cynhwysydd dŵr yn ystod yr arolygiad. Mae'r Uned Achosion Brys Bediatrig bellach wedi'i lleoli yn Ysbyty Plant Cymru. Mae'r Uned Mân Anafiadau bellach wedi'i lleoli yn yr ardal hon.</p> <p>Caiff ffynhonnau dŵr amgen eu prynu unwaith y caiff y mesurau atal a rheoli heintiau eu llacio. Yn y cyfamser, mae dŵr potel ar gael yn yr ardal.</p>	LW – Uwch-nyrs	Adolygu bob 3 mis
<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn gwneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau y caiff yr ocsigen a ragnodir ac a roddir i'r cleifion ei gofnodi ar siartiau rhagnodi</li> </ul>	2.6 Rheoli Meddyginiaethau	Atgoffwyd y staff o'u cyfrifoldeb i sicrhau y caiff ocsigen a roddir ei ragnodi'n unol â Chod Meddyginiaethau Caerdydd a'r Fro 2019. Dylid cwblhau'r broses hon ar ôl rhoi meddyginiaeth frys.	Uwch-dîm nyrso'r Gyfarwyddiaeth Meddygaeth Frys ac Acíwt	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau y caiff yr hylifau mewnwythiennol a ragnodir ac a roddir i'r cleifion eu cofnodi ar ddogfennaeth briodol a siartiau rhagnodi</li> <li>Sicrhau y caiff y cypyrddau cyffuriau eu cloi</li> </ul>		<p>Cafodd y neges hon ei chyfleu drwy e-bost, Facebook a'r fforwm ffocws bob pythefnos.</p> <p>Atgoffwyd y staff o'u cyfrifoldeb i sicrhau y caiff hylifau mewnwythiennol eu rhagnodi cyn eu gweinyddu ac y cânt eu cofnodi ar siart cydbwysedd hylif Cymru Gyfan yn unol â Chod Meddyginiaethau Caerdydd a'r Fro 2019.</p> <p>Cafodd y neges hon ei chyfleu drwy e-bost, drwy'r grŵp Facebook caeedig ac yn ystod y fforwm ffocws bob pythefnos</p> <p>Atgoffwyd y staff o'u cyfrifoldeb i sicrhau y caiff yr holl feddyginiaeth ei storio mewn cwpwrdd wedi'i gloi neu yn system storio meddyginiaethau Omnicel.</p> <p>Cafodd y neges hon ei chyfleu drwy e-bost, drwy'r grŵp Facebook caeedig ac yn ystod y fforwm ffocws bob pythefnos. Bydd yr uwch-nyrsys yn cynnal</p>	<p>Uwch-dîm nyrsio'r Gyfarwyddiaeth Meddygaeth Frys ac Acíwt</p> <p>Uwch-dîm nyrsio'r Gyfarwyddiaeth Meddygaeth Frys ac Acíwt</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau y caiff meddyginiaeth ei storio'n briodol</li> <li>Sicrhau y defnyddir blychau offer miniog ac y ceir gwared ar eu cynnwys yn briodol</li> <li>Sicrhau y caiff asesiadau a gwerthusiadau o boen eu dogfennu yn nodiadau achos y cleifion.</li> </ul>		hapwiriadau bob wythnos er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.		
		Trosglwyddwyd y feddyginiaeth o'r cwpwrdd yn yr Uned Mân Anafiadau i gwpwrdd wedi'i gloi. Caiff yr allweddi eu cadw gan nyrs gymwys yn unol â Chod Meddyginiaethau Caerdydd a'r Fro 2019.	Uwch-dîm nyrsio'r Gyfarwyddiaeth Meddygaeth Frys ac Acíwt	Cwblhawyd
		Atgoffwyd pob aelod o'r staff o'i gyfrifoldeb mewn perthynas â rheoli offer miniog yn ddiogel Cafodd y neges hon ei chyfleu drwy e-bost, drwy'r grŵp Facebook caeedig ac yn ystod y fforwm ffocws bob pythefnos.	Uwch-dîm nyrsio'r Gyfarwyddiaeth Meddygaeth Frys ac Acíwt	Cwblhawyd
		Atgoffwyd pob aelod o'r staff o'i gyfrifoldeb i sicrhau y caiff poen y claf ei asesu cyn rhoi analgesia ac ar ôl hynny ac y caiff y broses ei	Uwch-dîm nyrsio'r Gyfarwyddiaeth Meddygaeth Frys ac Acíwt	

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>gwerthuso/dogfennu'n glir yn y nodiadau.</p> <p>Cafodd y neges hon ei chyfleu drwy e-bost, Facebook a'r fforwm ffocws bob pythefnos.</p> <p>Cynhelir archwiliadau o safonau gofal ac iechyd bob mis ac mae'r canlyniadau yn nodi bylchau o ran gwybodaeth y staff ac yn cael eu bwydo i gynllun y tîm addysg.</p>	Uwch-dîm y Gyfarwyddiaeth Meddygaeth Frys ac Aciwt	
Sicrhau y gosodir biniau newydd yn ardal brysbennu'r Uned Achosion Brys	2.9 Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig	<p>Gosodwyd biniau newydd yn lle 80% o'r biniau yn ystod yr arolygiad. Prynwyd biniau cau meddal oherwydd llygredd sŵn a chyflwr cyffredinol wael y biniau a oedd yno.</p> <p>Roedd yr 20% o'r biniau a oedd yn weddill mewn cyflwr da. Caiff y rhain eu monitro'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau mewn cyflwr da, a phrynir biniau newydd os bydd angen.</p>	Uwch-dîm nyrsio'r Gyfarwyddiaeth Meddygaeth Frys ac Aciwt	Cwblhawyd Mawrth 2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Caiff hyn ei fonitro drwy hapwiriadau gan yr uwch-nyrsys a'i gynnwys fel rhan o rolau a chyfrifoldebau dyddiol y Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd.		
<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn gwneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau bod canlyniadau hapwiriadau ac archwiliadau ar gael i'r staff</li> </ul>	3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol	<p>Rydym yn bwriadu rhoi diweddariadau misol i'r staff ac arddangos gwybodaeth ar fwrdd cynnydd maes o law, ond nid oes modd gwneud hyn ar hyn o bryd oherwydd canllawiau rheoli haint Covid-19.</p> <p>Er mwyn goresgyn hyn, caiff cylchlythyr misol ei ddatblygu er mwyn darparu amrywiaeth o wybodaeth i'r staff, gan gynnwys adborth am ganlyniad archwiliadau. Bydd y cylchlythyr yn dilyn fformat tebyg i'r agenda Ansawdd a Diogelwch. Bydd hyn yn darparu dull gweithredu strwythuredig er mwyn gallu</p>	<p>JW – Uwch-nyrs</p> <p>WP – Nyrs Arwain</p>	<p>Hydref 2020</p> <p>Medi 2020</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau y caiff y protocol ar y cyd ar gyfer cleifion sy'n dod i'r Uned Achosion Brys mewn ambiwlans ei adolygu er mwyn sicrhau y cytunwyd pwy sy'n gyfrifol am y cleifion a bod hynny wedi'i ddogfennu.</li> </ul>		<p>cynnig adborth di-dor i gyfarfodydd y Weithrediaeth Ansawdd a Diogelwch.</p> <p>Caiff y cylchlythyr ei ddsbarthu drwy e-bost a thrwy'r dudalen Facebook gaeedig, a bydd copïau wedi'u lamineiddio ar gael i ardaloedd staff.</p> <p>Mae'r protocol ar y cyd y cytunwyd arno yn nodi</p> <p><i>"If any patient on an ambulance requires care of their hygiene needs including washing or use of a toilet, they must be brought into the EU where this care can be provided and then returned to the vehicle until a clinical space becomes available"</i>. Bydd y nyrs arwain yn gweithio gydag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwllans Cymru i gytuno ar y cyfrifoldebau gofynnol a'u hegluro.</p>	<p>WP – Nyrs Arwain Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwllans Cymru</p>	<p>Medi 2020</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Dylai'r rheolwyr sicrhau eu bod yn adolygu'r system adborth a'r rhesymau pam nad oedd pobl a oedd yn ymweld â'r adran achosion brys yn fodlon a chymryd camau priodol i ddatrys pryderon.</p>	<p>3.3 Gwella Ansawdd, Ymchwil ac Arloesi</p>	<p>Hapus ai peidio – Gosodwyd peiriant sgrin gyffwrdd i ganfod lefelau boddhad a phrofiad cleifion ym mis Chwefror 2020. Oherwydd mesurau rheoli haint Covid-19, cafodd y peiriant ei symud. Er mwyn goresgyn hyn, darparwyd cod QR. Mae'r tîm hapus ai peidio yn cyflwyno'r data hyn i uwch-dîm y Gyfarwyddiaeth Meddygaeth Frys ac Aciwt yn rheolaidd.</p> <p>Bydd y tîm gwella gwasanaethau yn ymdrin ag unrhyw bryderon a godwyd er mwyn sicrhau y cymerir camau priodol ac y gwneir y gwelliannau gofynnol.</p> <p>Caiff themâu pryderon eu codi yn ystod y cyfarfodydd Ansawdd a Diogelwch misol.</p> <p>Unwaith y caiff ei ddatblygu, disgwylir y bydd y cylchlythyr yn cynnwys themâu</p>	<p>Arweinydd Fframwaith Cyflawni Ansawdd yr Adran Achosion Brys</p>	<p>Cwblhawyd</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>sy'n ymwneud â'r pryderon a'r camau sydd eu hangen gan staff er mwyn gwella profiad cleifion.</p> <p>Mae arolygon y BIP ac arolygon cenedlaethol wedi'u hatal ar hyn o bryd, oherwydd cyfyngiadau i reoli haint Covid-19.</p> <p>Pan gaiff y cyfyngiadau eu llacio, mae'r Gyfarwyddiaeth Meddygaeth Frys ac Aciwt wedi cynllunio arolwg wedi'i deilwra'n benodol i ddiwallu anghenion penodol y gyfarwyddiaeth. Caiff yr arolwg hwn ei ddosbarthu bob mis pan gaiff y cyfyngiadau eu llacio.</p>	LW – Uwch-nyrs	Adolygu bob 3 mis
Bydd y rheolwyr yn atgoffa'r staff sut i ddefnyddio dogfennaeth nyrsio yn briodol.	3.5 Cadw cofnodion	<p>Caiff pob aelod newydd o'r staff sy'n ymgymryd â'r rhaglen sefydlu y cymorth a'r addysg berthnasol mewn perthynas â'r holl fathau o ddogfennaeth ac i ddeall eu cyfrifoldebau proffesiynol a chyfreithiol</p> <p>Atgoffwyd pob aelod o'r staff o'i gyfrifoldebau proffesiynol a chyfreithiol mewn perthynas â dogfennaeth. Cafodd</p>	Uwch-dîm nyrsio'r Gyfarwyddiaeth Meddygaeth Frys ac Aciwt ar y cyd â thîm addysg y gyfarwyddiaeth	Hydref 2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>y neges hon ei chyfleu drwy e-bost, drwy'r grŵp Facebook caeedig ac yn ystod y fforwm ffocws bob pythefnos.</p> <p>Cynhelir archwiliadau o safonau gofal ac iechyd bob mis a bydd y canlyniadau yn nodi bylchau o ran gwybodaeth y staff ac yn cael eu bwydo i gynllun y tîm addysg.</p> <p>Bydd yr uwch-nyrs yn cynnal gwiriadau wythnosol er mwyn nodi bylchau o ran dogfennaeth ac yn helpu'r staff i gwblhau'r ddogfennaeth</p>		
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn gwneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau bod lefelau cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol yn cael eu gwella a'u cofnodi ar y Cofnod Staff Electronig</li> </ul>	<p>Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd</p>	<p>Caiff cronfa ddata'r Cofnod Staff Electronig ei monitro er mwyn sicrhau cywirdeb ac er mwyn sicrhau bod gwybodaeth y sefydliad yn cyfateb i gofnodion y Cofnod Staff Electronig.</p>	<p>WP – Nyrs Arwain</p>	<p>Gorffennaf 2020</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael Adolygiad Arfarnu a Datblygu Personol cyfredol ac y caiff ei gofnodi ar y Cofnod Staff Electronig</li> </ul>		<p>Caiff anghysondebau eu huwchgyfeirio i hwb y Cofnod Staff Electronig, y timau cyllid a'r Bwrdd Clinigol Meddygaeth pan na chaiff yr anghysondebau hyn eu datrys.</p> <p>Atgoffwyd pob aelod o'r staff o'i gyfrifoldebau proffesiynol a chytundebol mewn perthynas â hyfforddiant statudol a gorfodol. Cafodd y neges hon ei chyfleu drwy e-bost, drwy'r grŵp Facebook caeedig ac yn ystod y fforwm ffocws bob pythefnos.</p> <p>Bydd arweinwyr tîm Band 7 yn sicrhau bod pob aelod o staff yn eu tîm yn cydymffurfio â hyfforddiant statudol a gorfodol ac yn rhoi adborth ar hynny ac yn uwchgyfeirio achosion lle na chydymffurfiwyd neu lle nad oes modd cydymffurfio</p> <p>Bydd arweinwyr tîm Band 7 yn sicrhau bod pob aelod o staff yn eu tîm yn cydymffurfio â'u Hadolygiadau Arfarnu a</p>	<p>Uwch-dîm nyrsio'r Gyfarwyddiaeth Meddygaeth Frys ac Aciwt</p> <p>Uwch-dîm nyrsio'r Gyfarwyddiaeth Meddygaeth Frys ac Aciwt</p>	<p>Hydref 2020</p> <p>Hydref 2020</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau ei fod yn ystyried y rhesymau pam bod aelodau o'r staff wedi mynegi pryderon yn holiaduron AGIC a'r arolwg Pwls.</li> </ul>		<p>Datblygu Personol ac yn rhoi adborth ar hynny ac yn uwchgyfeirio achosion lle na chydymffurfiwyd neu lle nad oes modd cydymffurfio.</p> <p>Caiff pob Adolygiad Arfarnu a Datblygu Personol ei lanlwytho i'r Cofnod Staff Electronig a bydd yn darparu tystiolaeth i'r Uwch-dîm Nyrsio drwy gyfarfodydd unigol ag uwch-nyrs.</p> <p>Bydd y Nyrs Arwain / Uwch-nyrs yn rhoi adborth ar y dangosfwrdd perfformiad yn ystod diwrnodau cwrdd i ffwrdd Band 7 ac yn rhoi cymorth lle bo angen.</p> <p>Oherwydd Covid-19, mae ffyrdd gwahanol o gyfathrebu a chynnal cyfarfodydd tîm drwy ddulliau fideogynadleda wrthi'n cael eu hystyried.</p> <p>Rhoddir adborth bob mis drwy gyfarfodydd perfformiad y Bwrdd Clinigol Meddygaeth, hyfforddiant gorfodol a statudol a chydymffurfiaeth</p>	<p>WP – Nyrs Arwain</p> <p>WP – Nyrs Arwain</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Hydref 2020</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>ag Adolygiadau Arfarnu a Datblygu Personol.</p> <p>Caiff cyfarfodydd staff â'r adran Adnoddau Dynol er mwyn cyflwyno canlyniadau arolygon Pwls eu hailddechrau.</p> <p>Annog gweithgorau o bob gradd staff i gefnogi newidiadau cynhwysol er mwyn hyrwyddo llesiant y staff.</p> <p>Oherwydd Covid-19, mae ffyrdd gwahanol o gyfathrebu a chynnal cyfarfodydd tîm drwy ddulliau fideogynadledda wrthi'n cael eu hystyried.</p> <p>Defnyddio cylchlythyr i roi adborth i bob aelod o'r staff.</p>		
Sicrhau bod nifer priodol o nyrsys ar y rota dros nos yn yr uned achosion brys bediatrig er mwyn sicrhau lefel staffio ddiogel a chontinwrm gofal.	7.1 Y Gweithlu	<p>Caiff rotas dyddiol eu hadolygu er mwyn sicrhau lefelau staffio diogel ar bob sifft.</p> <p>Cynhelir gwaith meincnodi yn erbyn ysbytai yn y DU er mwyn diwallu anghenion staffio'r Unedau Achosion</p>	Uwch-dîm nyrsio'r Gyfarwyddiaeth Meddygaeth Frys ac Aciwt	Hydref 2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Brys Pediatrig ac ategu'r angen am adolygiad o'r sefydliad.</p> <p>Bydd hyn yn cynnwys blaengynllunio er mwyn cyflwyno pwynt mynediad unigol i'r uned bediatrig</p>	<p>NC - Meddyg ymgynghorol</p>	<p>Gorffennaf 2020</p>

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

### **Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (priflythrennau): Rebecca Aylward**

**Teitl swydd: Cyfarwyddwr Nyrso**

**Dyddiad: 2 Gorffennaf 2020**

